Rhif: **WG26399**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau statudol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Canllawiau ar Gydweithredu Effeithiol rhwng Asiantaethau

Dyddiad cyhoeddi: **24 Medi 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **17 Rhagfyr 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn canolbwyntio ar atal y materion hyn, diogelu dioddefwyr a chynorthwyo'r rheini y mae materion o'r fath yn effeithio arnynt.

Mae'r darpariaethau a geir yn y Ddeddf yn atgyfnerthu arweinyddiaeth a chamau strategol o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae un o ddarpariaethau'r Ddeddf (adran 15) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau perthnasol ar y modd y dylent awdurdod arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon.

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â chanllawiau statudol drafft i'w cyflwyno o dan y pŵer hwn.

Mae'r canllawiau'n amlinellu gwerth cydweithredu rhwng sefydliadau at ddiben rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Maent yn nodi'r camau sy'n angenrheidiol i gydweithredu ac yn nodi arfer da o ran sefydlu trefniadau partneriaeth a'r elfennau allweddol ar gyfer partneriaethau effeithiol.

## Sut i ymateb

Ymgynghoriad ysgrifenedig yw hwn. Crynhoir y cwestiynau mewn holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon, felly defnyddiwch yr holiadur hwn i roi eich adborth. Gall yr ymatebion gael eu hanfon drwy e-bost neu drwy'r post i'r manylion cyswllt isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir dod o hyd i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn:
http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/domestic-abuse/?skip=1&lang=cy

## Manylion cysylltu

Am ragor o wybodaeth:
Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig
Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
e-bost: VAWDAteam@cymru.gsi.gov.uk

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Yr iaith a ddefnyddir yn y canllawiau | 1 |
| 2. | Diffiniadau | 2 |
| 3. | Crynodeb Gweithredol | 5 |
| 4. | Gofynion y Canllawiau Statudol hyn a wneir o dan Adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | 7 |
| 5. | Pam cydweithredu amlasiantaethol? | 14 |
| | - Arfer da | |
| | - Y sail dystiolaeth | |
| 6. | Cydweithredu o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol | 22 |
| | - Beth yw rôl y Bartneriaeth? | |
| | - Pwy yw'r Partneriaid? | |
| | - Rôl y Trydydd Sector Arbenigol | |
| 7. | Cydweithredu'n strategol | 25 |
| 8. | Cydweithredu'n weithredol | 29 |
| 9. | Fforymau amlasiantaethol i ymateb i achosion unigol | 33 |
| 10. | Rôl sefydliadau unigol yn y broses gydweithredu | 35 |
| 11. | Model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog | 38 |

Atodiadau

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Fforymau amlasiantaethol yng Nghymru heddiw | 46 |
| 2. | Adnoddau i greu ymateb amlasiantaethol gwell | |

| | |
|---|---|
| Dogfennau cyfeirio | 52 |

## 1. Yr iaith a ddefnyddir yn y canllawiau

Mae'r canllawiau hyn ar sefydlu a chynnal partneriaethau gweithredol, strategol effeithiol sy'n canolbwyntio ar achosion yn canolbwyntio ar fathau penodol o drais a cham-drin sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched. Dengys tystiolaeth fod achosion mynych o gam-drin domestig, pob math o drais rhywiol a mathau eraill o drais a cham-drin, fel priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod, yn cael effaith anghymesur ar fenywod.

Er ei bod yn bwysig i'r profiad anghymesur hwn gael ei gydnabod a'i gyfleu drwy'r canllawiau a gwaith dilynol yr awdurdodau perthnasol, diben y canllawiau yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cydweithio er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw un sy'n profi unrhyw fath o drais ar sail rhywedd, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Felly, dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau hyn at "drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol" neu "drais a cham-drin" yn cwmpasu pob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'i diffinnir yn adran 24 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## 2. Diffiniadau

**Aflonyddu:** Math o ymddygiad gan berson lle mae'n gwybod neu lle dylai wybod ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu'r person arall; ac at ddiben y diffiniad hwn:

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu neu'n golygu hynny os byddai person rhesymol oedd yn meddu ar yr un wybodaeth yn meddwl bod y math o ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu person arall neu'n golygu hynny; a

(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys iaith lafar.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod:** gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (c. 31)

**Awdurdod Lleol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf):** Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

**Awdurdodau perthnasol:** cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**Cam-drin (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

**Cam-drin domestig:** Cam-drin lle mae'r dioddefwr yn, neu wedi bod yn, gysylltiedig â'r camdriniwr.

Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddiben y diffiniad o "gam-drin domestig" os yw'n dod o dan y diffiniad yn adran 21(2) neu (3) o'r Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Camfanteisio rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson

(a) sy'n golygu cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (c.42), o ran ei heffaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) a fyddai'n golygu cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr

**Cleient:** Defnyddir y term cleient yma i ddisgrifio person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term yn cwmpasu'r termau "dioddefwr", "goroeswr", "defnyddiwr gwasanaeth" a "claf". Mae gwahanol bartneriaid yn defnyddio gwahanol eiriau i ddiffinio eu perthynas â'r person sy'n wynebu risg ac, felly, mae'r canllawiau yn adlewyrchu hyn.

Yn ymarferol, awgrymir bod person sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dewis y term sydd orau ganddo i'w ddefnyddio, lle

mae angen term. Yn gyffredinol, dylai fod yn bosibl defnyddio enw cleient yn hytrach na thermau disgrifiadol eraill.

**Cydweithredu:** Mae'r term "cydweithredu" yn cyfeirio at ymateb rhyngasiantaethol cydgysylltiedig drwy strwythur ffurfiol, neu fforymau, lle mae'r prif ffocws ar ddiogelu'r dioddefwr, lleihau erledigaeth eilaidd a dwyn camdrinwyr i gyfrif. Dylai'r fforymau:

(a) mabwysiadu cyd-bolisïau a chyd-weithdrefnau cyson, gan gynnwys asesiad risg a chynllun rheoli risg a diogelwch cytûn, sy'n cydgysylltu ac yn safoni'r ymyriadau proffesiynol i bawb sy'n wynebu risg ac yn lleihau'r risg o niwed;

(b) rhannu gwybodaeth i wella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr/goroeswyr - oedolion a'u plant;

(c) gweithio gyda'i gilydd i leihau erledigaeth byth a hefyd;

(d) gwella atebolrwydd asiantaethau;

(e) gwella'r cymorth, gan gynnwys hyfforddiant, a roddir i'r holl staff sy'n rhan o achosion cam-drin domestig; a

(f) penderfynu a yw'r camdriniwr honedig yn peri risg sylweddol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol.

**Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Gweithiwr arbenigol wedi'i hyfforddi sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig i ddioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o gam-drin domestig.

**DACC:** Galwad Gynadledda Cam-drin Domestig

**Gofyn a Gweithredu**: Proses ymholi wedi'i thargedu a gyflawnir gan Wasanaeth Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a phroses ymholi reolaidd gan wasanaethau mamau a bydwreigiaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl a cham-drin plant.

Dylai "Gofyn a Gweithredu" fod yn gymwys ar lefel sefydliadol yn hytrach nag unigol a dylai ddigwydd ar ffurf proses ymholi wedi'i thargedu yn hytrach na phroses ymholi reolaidd.

Mae'r term holi wedi'i dargedu yn disgrifio lle caiff arwyddion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu hadnabod, gan ysgogi gweithiwr proffesiynol i ofyn i'w gleient a wnaeth unrhyw un o'r materion hyn effeithio arno.

**Gwasanaeth Cyhoeddus:** Gwasanaethau sy'n cael eu darparu er budd y cyhoedd yw gwasanaethau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy'r trydydd sector, drwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau a osodir ar gontract.

**MAPPA:** Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd

**MARAC:** Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

**MASH:** Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol

**Proses ymholi wedi'i thargedu:** Y broses a ddefnyddir wrth "Ofyn a Gweithredu"

**SWOT**: Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw

**Trais ar sail Rhywedd:** (a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy’n codi yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy’n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;
(c) gorfodi person (p’un ai drwy rym corfforol neu orfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (p’un ai a yw'n ei rwymo’n gyfreithiol ai peidio);

**Trais Rhywiol (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf):** camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygwth trais o natur rywiol.

**Trais yn erbyn menywod:** Y profiad o drais ar sail rhywedd (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf) gan fenywod.

**Y Ddeddf:** Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.


## 3. Crynodeb Gweithredol

Mae’r canllawiau hyn yn archwilio’r camau sy’n angenrheidiol i gydweithredu, ac yn nodi arfer da o ran sefydlu trefniadau partneriaeth. Er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y rhai sy’n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, rhaid i’r cydweithredu ddigwydd ar bob lefel mewn sefydliadau - ymhlith yr arweinwyr strategol, y rheolwyr gweithredol a’r rhai sydd ar y rheng flaen.

Cyhoeddir adran 4 o'r canllawiau o dan adran 15 o'r Ddeddf ac mae'n amlinellu gofynion penodol ar awdurdodau perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 14 o'r Ddeddf) mewn perthynas â chydweithredu amlasiantaethol.

Cyhoeddir gweddill y canllawiau o dan adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Amlinellir canllawiau i gynorthwyo Awdurdodau Perthnasol i gyflawni gwaith amlasiantaethol a gwerth cydweithredu amlasiantaethol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r elfennau allweddol sydd eu hangen ar gyfer partneriaethau effeithiol.
Yna mae'r canllawiau'n egluro beth yn union yw cydweithredu ar bob un o'r lefelau canlynol:

- y bartneriaeth strategol;
- y bartneriaeth weithredol; a
- fforymau amlasiantaethol.




1) **Partneriaethau strategol** a sefydlir er mwyn mynd i'r afael ag amcanion cyffredin, sy'n cael eu nodi drwy ddadansoddiad strategol o anghenion. (e.e. Byrddau Gwasanaethau Lleol).

2) **Partneriaethau gweithredol** sy'n sicrhau bod y nodau y cytunir arnynt gan y bartneriaeth strategol yn cael eu cyflawni. Mae aelodau'r bartneriaeth weithredol yn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu sy'n gwireddu'r nodau.

3) **Fforymau amlasiantaethol** sy'n dod â gweithwyr rheng flaen proffesiynol ynghyd i rannu gwybodaeth er mwyn hyrwyddo diogelwch y rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

Nesaf, mae'r canllawiau'n mynd ati i fanylu ar yr hyn y mae angen i asiantaethau ei wneud er mwyn cyflawni eu hymrwymiadau i’r bartneriaeth ac i sicrhau ymateb cadarn i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hasiantaethau.

Yn olaf, mae'r canllawiau'n nodi pedwar conglfaen ymyriad effeithiol gan fforwm amlasiantaethol a'r broses ymgysylltu o fewn sefydliad. Pan gaiff y gwaith o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ei lunio a'i ymgorffori yn y modd hwn, mae fforymau amlasiantaethol yn fwy tebygol o lwyddo i gyflawni eu nodau.

## 4. Canllawiau a gyhoeddir o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Cyhoeddir yr adran hon o'r canllawiau o dan adran 15 o'r Ddeddf. Cyflwynir y rhan fwyaf o'r canllawiau i bob awdurdod perthnasol fel y'i diffinnir yn adran 14 o'r Ddeddf[i]. Lle mae'r canllawiau ond yn gymwys i un awdurdod perthnasol, neu nifer benodol o awdurdodau perthnasol, gwneir cyfeiriad penodol. Lle na wneir unrhyw gyfeiriad, rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol lynu wrth y canllawiau hyn.

Yn unol ag adran 17 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdodau perthnasol, neu awdurdodau perthnasol penodol y mae gofynion penodol yn yr adran hon o'r canllawiau yn gymwys iddynt, ddilyn y camau a nodir yn yr adran hon o'r canllawiau.

Fodd bynnag, nid oes angen i awdurdod perthnasol ddilyn y rhan hon o'r canllawiau os:

- cred fod rheswm da dros iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau penodol o achosion, neu beidio â'u dilyn o gwbl,
- mae'n penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phwnc y canllawiau, ac
- mae datganiad polisi a gyhoeddir gan yr awdurdod yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf yn cael effaith.

Mae adran 18 o'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r datganiad polisi a gyhoeddir gan awdurdod perthnasol nodi sut mae'r awdurdod perthnasol yn bwriadu i swyddogaethau gael eu harfer mewn ffordd wahanol i'r llwybr a nodir yn y rhan hon o'r canllawiau a rhesymau'r awdurdod dros fwriadu dilyn y drefn wahanol honno. Rhaid i'r datganiad polisi gael ei gyhoeddi a rhaid i gopi gael ei anfon at Weinidogion Cymru.

O dan adran 19 o'r Ddeddf, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdodau perthnasol i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddiben sicrhau bod yr awdurdod yn arfer swyddogaethau yn unol â'r adran hon o'r canllawiau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw polisi amgen yr awdurdod (yn llwyr neu'n rhannol) yn debygol o gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf[ii].

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i fodel cydweithredu amlasiantaethol penodol gael ei ddefnyddio, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod trefniadau amlasiantaethol ffurfiol ar waith ar lefelau strategol a gweithredol ac ar lefel fforymau.

## Y Bartneriaeth Strategol

**Diben y Bartneriaeth Strategol yw datblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth leol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

O ran **Cydweithredu Strategol**, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol wneud y canlynol:

- sefydlu partneriaeth strategol newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; **neu**

- adolygu unrhyw bartneriaeth strategol bresennol sy'n canolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod partneriaeth strategol o'r fath yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol canlynol:

- rhaid i aelodau'r grŵp strategol fod yn uwch aelodau o staff awdurdodau perthnasol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu a gwneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad. Dylai'r aelodau hefyd gynnwys Cadeiryddion y grŵp gweithredol (gweler Pennod 8) ac unrhyw is-bwyllgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen perthnasol;

- rhaid i bob partner angenrheidiol gymryd rhan yn y grŵp ar uwch lefel gyfatebol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a sefydliadau trydydd sector arbenigol, a rhaid iddo ddangos yr ymgysylltiad hwn;

- mae angen Cylch Gorchwyl neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod consensws ac eglurder ynghylch yr hyn y mae'r partneriaid yn cytuno yw'r sail dros y cydweithredu, yr hyn y mae'r ymrwymiad yn ei olygu a sut y caiff atebolrwydd ei reoli. Mae'n rhaid i'r cytundeb hwn amlinellu diben y grŵp a:
    - sut mae'n cyd-fynd â'r strwythur llywodraethu lleol cyffredinol;
    - sut y bydd yn monitro ac yn cyflwyno adroddiadau ar y strategaeth leol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sut mae'r awdurdodau perthnasol yn cyflawni o ran dibenion y Ddeddf;
    - sut y bydd yn sicrhau y caiff unrhyw waith a chamau cydweithredol eu hadlewyrchu mewn strategaethau lleol;
    - sut y bydd yn cyflawni camau gweithredu a chyfrifoldebau a nodir drwy unrhyw bartneriaethau sefydledig a sut y bydd yn atebol amdanynt;
    - sut y bydd yn sicrhau mewnbwn rheolaidd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth; a
    - sut y bydd yn sicrhau bod y grŵp yn cael ei lywodraethu'n briodol gan gynnwys y gofynion sylfaenol ar aelodau, amlder cyfarfodydd, a'r cyfrifoldeb am drefnu a chydgysylltu'r grŵp o ddydd i ddydd.

- mae angen cyfres o ganlyniadau cyffredin, integredig a set ddata gydgysylltiedig sy'n gwneud y canlynol:

    - monitro'r llwybr gofal;
    - asesu p'un a yw amcanion strategol yn cael eu cyflawni;
    - llywio trosolwg y grŵp o'r modd y mae'r strategaeth leol yn cael ei chyflawni; a
    - cynnwys gwybodaeth ac adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth.

- cytuno ar gyfres gyffredin o bolisïau a ddefnyddir gan bob partner gan gynnwys asesu risg, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant;

- cytundeb ar y modd y dylai gwasanaethau gael eu hariannu er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol a darparu prosesau sy'n rhoi gwerth am arian fel trefniadau cyd-gomisiynu neu gyd-ariannu; a

- rhaid cefnogi gwaith y Cynghorydd Cenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth a monitro, cydgysylltu a gwella darpariaeth ac arferion.

Bydd y gofyniad i feddu ar strategaethau lleol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod i rym yn ystod Gwanwyn 2016. Fel y cyfryw, bydd agweddau ar y canllawiau hyn sy'n ymwneud yn benodol â strategaethau lleol ond yn gymwys pan fydd y gofynion hynny yn dod i rym.

### Y Bartneriaeth Weithredol

**Diben y Bartneriaeth Weithredol yw cyflawni'r strategaeth leol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy gydweithredu a, lle y bo angen, oruchwylio swyddogaethau fforymau rheng flaen yn yr ardal leol ac ymgymryd â gwaith gwella lle y bo angen.**

O ran **Cydweithredu Gweithredol**, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol wneud y canlynol:

- sefydlu partneriaeth weithredol newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; **neu**

- adolygu unrhyw bartneriaeth weithredol bresennol sy'n canolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol sicrhau bod partneriaeth weithredol o'r fath yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol canlynol:

- sicrhau bod aelodau'r grŵp gweithredol sy'n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn uwch aelodau priodol ac yn cynnwys y rhai sydd wedi'u hawdurdodi ar ran eu sefydliad i sicrhau bod modd cyflawni'r hyn dan sylw;

- gwahodd pob partner angenrheidiol, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a sefydliadau trydydd sector arbenigol ar uwch lefel gyfatebol, y mae

angen cydweithio â hwy er mwyn cyflawni'r nodau strategol a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi; a rhaid dangos y gwaith ymgysylltu hwn;

- monitro presenoldeb a sicrhau bod y grŵp strategol yn cael ei hysbysu am unrhyw absenoldebau cyson;

- amlinellu diben y grŵp naill ai yn y Cylch Gorchwyl neu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodi'r canlynol:

    - sut mae'n cyd-fynd â'r strwythur llywodraethu lleol cyffredinol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau i'r grŵp strategol;
    - sut y bydd yn cyflawni'r strategaeth leol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol unwaith y bydd yn ofynnol iddo wneud hynny;
    - sut y bydd yn cyflawni camau gweithredu a chyfrifoldebau a nodir drwy unrhyw bartneriaethau sefydledig a sut y bydd yn atebol amdanynt; a
    - sut y bydd yn sicrhau bod y grŵp yn cael ei lywodraethu'n briodol gan gynnwys y gofynion sylfaenol ar aelodau, amlder cyfarfodydd, a'r cyfrifoldeb am drefnu a chydgysylltu'r grŵp o ddydd i ddydd.

- dilyn cyfres gyffredin o bolisïau a ddefnyddir gan bob partner gan gynnwys asesu risg, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant;

- cytuno ar gynllun gweithredu, a fydd yn dod yn rhan o'r strategaeth leol, i gyflawni'r nodau strategol, gan nodi pwy sy'n gyfrifol am gymryd y camau gweithredu;

- adolygu'r cynllun gweithredu bob chwarter a chyflwyno adroddiad arno bob blwyddyn fel rhan o'r gofynion i adolygu'r strategaeth leol;

- casglu, dadansoddi a monitro'r holl wybodaeth am berfformiad a'r holl wybodaeth ariannol yn erbyn y cynllun gweithredu; a

- sicrhau y sefydlir llwybr gofal cytûn y gall pob partner ei ddefnyddio ar gyfer y rhai sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Fforymau amlasiantaethol

O ran **fforymau amlasiantaethol**, mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol:

- adolygu unrhyw drefniadau/grwpiau/partneriaethau/fforymau cydweithredol presennol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel MARAC a MASH, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ymarfer a amlinellir yn y canllawiau hyn (Pennod 9). Bydd hyn yn arbennig o angenrheidiol yn achos y rhai na chânt eu nodi fel unigolion sy'n wynebu risg uchel o niwed difrifol, uniongyrchol er mwyn ymyrryd yn gynharach a nodi achosion lle y gallai'r sefyllfa waethygu;

- lle a phryd y mae angen cydnabyddedig i sefydlu unrhyw fforymau newydd, rhaid i awdurdodau perthnasol ddilyn y model datblygu prosiect ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog (Pennod 9) er mwyn sicrhau y cânt eu monitro o ran eu diben, eu heffeithiolrwydd a'r canlyniad;

- sefydlu strwythur llywodraethu priodol a ddylai darparu cyswllt rhwng y grwpiau gweithredol a strategol a chyflwyno adroddiadau iddynt;

- sicrhau dulliau systematig o nodi cleientiaid y mae angen ymateb amlasiantaethol arnynt ar draws y sefydliad sy'n atgynhyrchu ac yn ategu prosesau awdurdodau perthnasol a fforymau eraill;

- sicrhau bod y broses hon o nodi cleientiaid yn arwain at atgyfeiriadau priodol drwy gyhoeddi a hysbysebu'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer y fforymau amlasiantaethol i dimau staff yn rheolaidd;

- sicrhau bod pob partner yn cymryd rhan mewn llwybr atgyfeirio at ddarparwyr arbenigol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau bod pob dioddefwr a nodir yn gallu cael gafael ar gymorth arbenigol;

- ymrwymo i Brotocolau Rhannu Gwybodaeth lleol er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd gyfreithiol a phriodol drwy'r fforwm;

- enwebu cynrychiolwyr o adrannau perthnasol a fydd yn cynrychioli'r sefydliad yn y fforymau amlasiantaethol. Dylai'r adrannau hyn gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol: gwasanaethau beichiogrwydd ac ôl-enedigol, Damweiniau ac Achosion Brys, gofal cymdeithasol i blant, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, addysg, tai a thimau troseddau ieuenctid;

- sicrhau bod dirprwy gynrychiolwyr yn cael eu penodi er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a phresenoldeb cyson a hyddysg mewn fforymau amlasiantaethol;

- sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod pob partner angenrheidiol, yn ychwanegol at awdurdodau perthnasol, yn cymryd rhan yn y fforymau, gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf a sefydliadau trydydd sector arbenigol, a dangos yr ymgysylltiad hwn; ac

- ystyried unrhyw ofyniad statudol o ran aelodaeth e.e. Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd ac Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig; Byrddau Diogelu ac ati.

O ran **rôl sefydliadau unigol mewn gwaith cydweithredol**

Mae'n ofynnol i bob un o'r awdurdodau perthnasol wneud y canlynol:

- nodi arweinydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i oruchwylio ei ymdrechion a darparu ysgogiad strategol o fewn y sefydliad;

- llunio polisïau a gweithdrefnau mewnol sy'n amlinellu'n glir ymagwedd ac ymrwymiad disgwyliedig y sefydliad o ran hyfforddiant, rhannu gwybodaeth a chasglu data.[iii]

    - neilltuo adnoddau er mwyn hwyluso'r nodau strategol yn eu sefydliadau eu hunain. Gall hyn gynnwys arian ar gyfer hyfforddi staff, yn ogystal â sicrhau bod ganddynt yr amser i gymryd rhan yn y cyfryw ddulliau dysgu. Bydd angen i bartneriaid sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir ganddynt yn cyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol;

    - sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn cael datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant amlasiantaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

    - sicrhau y caiff protocolau rhannu gwybodaeth eu mabwysiadu yn unol â fframwaith WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru)[iv] a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru;

    - ymgorffori gwaith sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu systemau rheoli perfformiad mewnol;

    - creu systemau mewnol ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner fel rhan o waith fforymau, ond gall fod angen iddynt hefyd ehangu eu systemau er mwyn cynnwys y gwaith a wneir ganddynt i gefnogi'r cynllun gweithredu ac unrhyw gyfraniadau pellach a wneir ganddynt i helpu'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

    - sicrhau bod gan eu hasiantaeth eu hunain lwybr gofal mewnol ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cysylltu â'r llwybr partneriaeth;

    - casglu data sy'n adlewyrchu'r gwaith a wneir ganddynt ar hyd y llwybr gofal, er enghraifft, nifer y bobl y gofynnwyd iddynt ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y nifer a ymatebodd, nifer y cynlluniau diogelwch a grëwyd, nifer y bobl a atgyfeiriwyd ac at ba wasanaeth. Gall asiantaethau partner hefyd gyfrannu data fel tystiolaeth o ganlyniadau, er enghraifft, y lleihad yn y risg a berir i gleientiaid neu nifer y camdrinwyr a erlynwyd yn llwyddiannus; ac

    - adolygu'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol bob chwarter.

Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o'r gofynion i adolygu strategaeth leol, unwaith y bydd gofyn gwneud hynny. Bydd hyn yn nodi meysydd sy'n gweithio'n dda neu sydd angen eu gwella.

## 5. Pam cydweithredu amlasiantaethol?

Mae cydweithredu rhwng sefydliadau at ddibenion rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gysyniad eang a phellgyrhaeddol.

Cydnabyddir bod angen cydweithrediad nifer o wahanol asiantaethau er mwyn ymateb yn effeithiol i rai mathau o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dywed y rhai sydd wedi profi cam-drin domestig wrthym fod ymatebion amlasiantaethol yn gweithio oherwydd mai dim ond unwaith y mae'n rhaid iddynt ddweud eu stori, eu bod yn cael help y tro cyntaf y maent yn dweud wrth rywun a'u bod yn cael yr un ymateb gan bob asiantaeth.

Ers tro byd mae Cymru wedi bod yn arloesol a phenderfynol wrth fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ar lefel cleient, mae arloesedd Cymru wedi creu model MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg) sy'n cael ei ddefnyddio a'i ymarfer yn rhyngwladol bellach. Yn strategol, rydym hefyd yn dangos arfer da yn ein henghreifftiau o bartneriaethau strategol, gan gynnwys y Grŵp Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Grŵp Arwain Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu’r record dda hon er mwyn annog mwy o gydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau ymateb cyfannol ac effeithiol, er mwyn hyrwyddo diogelwch unigolion sy'n wynebu risg o bob math o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Ffocws strategol a gweithredol

Wrth ystyried gwaith amlasiantaethol mae’n bwysig ystyried arweinyddiaeth strategol unrhyw bartneriaeth a'r cydweithrediad gweithredol sy’n hybu cynnydd ac yn sicrhau effeithiolrwydd.

Er mwyn gweithio mewn partneriaeth, mae angen cyfathrebu, cyfarfodydd a chynllunio effeithiol mewn sawl cyswllt: datblygu fframweithiau strategol a gweithredol a llwybr gofal unedig ar gyfer pob agwedd ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; rhannu gwybodaeth a datblygu ymyriadau cydgysylltiedig mewn achosion penodol; ac yna fonitro’r llwybr gofal ac adolygu’r canlyniadau er mwyn datblygu’r ymateb.

Bydd angen i bartneriaid fod yn bwynt cyswllt rhwng y cydweithrediad amlasiantaethol a’u hasiantaethau hwy, gan sicrhau bod eu prosesau mewnol yn ategu'r gwaith amlasiantaethol ac yn ei wella. Bydd angen i gyfraniad yr asiantaeth unigol at waith ac ymyriadau amlasiantaethol gael ei gefnogi gan ymrwymiad strategol, systemau gweithredol a rheolaeth yr asiantaeth honno.

### Ffocws ar ddioddefwyr

O ystyried y ffaith bod model MARAC yn hen sefydledig bellach, a'r gefnogaeth barhaus a roddir gan Lywodraethau Cymru a'r DU i'r gwaith hwn, mae'n arbennig o bwysig bod creadigrwydd profedig Cymru yn canolbwyntio ar integreiddio a datblygu ymatebion sy'n ymwneud â nodi achosion yn gynharach a'u hatal.

Er mai nod Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo'r broses o ddatblygu atebion lleol ar sail angen, mae'n bwysig, er hynny, sicrhau cysondeb ac ansawdd. Wrth wneud hyn, mae'n hanfodol bod partneriaid yn profi eu cynigion yn erbyn cyfres o gerrig milltir datblygiadol er mwyn sicrhau bod y model arfaethedig yn cyflawni ei amcanion ac yn cynnig yr ateb sydd ei angen i'r broblem dan sylw. Ni ddylid creu modelau gwaith amlasiantaethol er eu mwyn eu hunain. Mae'n rhaid iddynt fod yn effeithiol ac yn bwrpasol.

Cydnabyddir 12 elfen allweddol o ran gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn "*In Search of Excellence: A Guide to Effective Domestic Violence Partnerships*"[5], sy'n seiliedig ar 30 o ymweliadau â phartneriaethau lleol ledled y DU. Mae'r canllawiau'n ymgorffori profiadau partneriaethau mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched a'r gwersi am gomisiynu a ddysgwyd gan yr Awdurdodau Lleol yr ymwelwyd â hwy.

Mae'r diagram canlynol yn amlinellu'r elfennau hanfodol ar gyfer cydweithrediad strategol a gweithredol a bydd y rhain yn ddefnyddiol wrth ystyried cynigion partneriaeth newydd ac wrth adolygu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth sy'n mynd rhagddo.

## Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth: Arferion da

| | |
|---|---|
| Amcanion Cyffredin | • Dylai awdurdodau perthnasol ymrwymo i weledigaeth a chyfres o amcanion cyffredin. |
| Strwythur a Llywodraethu | • Dylai awdurdodau perthnasol gytuno i fod yn atebol i'r bartneriaeth, bod â'r gallu i gyflawni a chlymu'r bartneriaeth hon ag agendâu eraill. |
| Strategaeth, Arweinyddiaeth a Chynllun Gweithredu | • Rhaid i amcanion strategol a chynllun gweithredu unrhyw gydweithrediad fod yn gyson ar draws yr awdurdodau perthnasol. Mae gofyn i'r grŵp strategol gael arweinyddiaeth er mwyn mynnu bod y blaenoriaethau a nodwyd o fewn y bartneriaeth yn parhau i ysgogi'r ddarpariaeth leol. |
| Cynrychiolaeth | • Dylai pob awdurdod perthnasol gael ei gynrychioli o fewn strwythur y bartneriaeth a chael ei gynrychioli gan rywun sydd â'r awdurdod i weithredu ar ran yr asiantaeth ac i ymateb i anghenion y bartneriaeth o fewn ei strwythurau ei hun. |
| Adnoddau | • Dylai awdurdodau perthnasol wybod faint mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ei gostio iddynt bob blwyddyn. Dylai'r asiantaethau sydd wedi talu costau'r gwasanaethau hyn yn y gorffennol ystyried cyfuno adnoddau er mwyn ariannu'r ddarpariaeth leol. |
| Cydgysylltu | • Dylai awdurdodau perthnasol weithio i gydgysylltu eu gweithgareddau a'u mentrau gyda rhai yr asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt er mwyn cyflawni amcanion y bartneriaeth. Dylid cydnabod a chefnogi rôl bwysig yr ymateb cydgysylltiedig. |
| Hyfforddiant | • Rhaid rhoi hyfforddiant priodol i staff rheng flaen i'w galluogi i nodi unigolion sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn briodol ac effeithiol. |
| Data | • Dylai awdurdodau perthnasol sy'n gweithio mewn partneriaeth gymryd rhan yn y gwaith o greu a chyfrannu at set ddata i fonitro, hysbysu a datblygu ei hymateb. Dylai awdurdodau perthnasol greu mesurau canlyniadau er mwyn barnu eu heffeithiolrwydd. |
| Polisïau a Phrotocolau | • Dylai cydweithredu amlasiantaethol gael ei gefnogi gan lwybrau gofal, rhannu gwybodaeth, prosesau clir, asesiadau risg a'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau o achosion difrifol ac adolygiadau o ddynladdiadau domestig. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd. |
| Gwasanaethau Arbenigol | • Dylid cynnal dadansoddiad o anghenion er mwyn nodi anghenion a darpariaeth leol. Lle bo modd, dylai gwasanaethau arbenigol gael eu hariannu'n gynaliadwy er mwyn diwallu'r angen a nodwyd. |
| Amrywiaeth | • Dylid defnyddio ystadegau demograffig lleol i lywio ymarfer er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn gallu cael gafael ar wasanaethau, a'u bod yn gwneud hynny. Dylai diwallu anghenion y gymuned gyfan fod yn flaenoriaeth. |
| Defnyddwyr gwasanaeth | • Dylai profiad defnyddwyr gwasanaeth gael ei ddefnyddio'n rheolaidd ac yn systematig er mwyn hysbysu'r bartneriaeth am effeithiau ei gwaith ac awgrymu gwelliannau. |

## Y sail dystiolaeth

Nod Llywodraeth Cymru yw hybu gwasanaethau effeithiol o safon gyson uchel sy'n cael eu cynnal ledled Cymru. Mae ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael y gwasanaethau mwyaf effeithiol posibl.

Mae tystiolaeth yn dangos gwerth rhai ymyriadau, fel rhai Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a Chynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). O ran rhai o'r ymyriadau arloesol mwy diweddar fel Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH), nid yw'r dystiolaeth wedi'i chasglu na'i dadansoddi eto, yn rhannol oherwydd bod yr ymyriadau'n amrywio o ran ffocws ac ymarfer o un ardal i'r llall.

Wrth i ardaloedd fynd ati i ddatblygu eu hymatebion lleol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd angen iddynt gasglu data er mwyn nodi sut y maent yn perfformio a pha ymyriadau sydd orau i gadw dioddefwyr trais yn erbyn menywod yn ddiogel yn y tymor byr a'r tymor hir.


Ystyrir bod partneriaethau amlasiantaethol, cydweithredu a phrosesau rhannu gwybodaeth cadarn yn hanfodol er mwyn cynnig ymateb effeithiol i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Cymru wedi dangos arloesedd a phenderfyniad ers tro wrth fynd i'r afael â thrais a chamdriniaeth o'r fath, ar lefel weithredol lle mae partneriaethau wedi datblygu ymyriadau fel MARAC (Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg) ac ar lefel strategol; 'Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r sail dystiolaeth dros gynnig ymateb cydweithredol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn.

### Gwell effeithiolrwydd

Er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr, mae angen i amryw o asiantaethau chwarae eu rhan. Yn ôl *Safety in Numbers*[6], astudiaeth o waith Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) mewn saith lleoliad a chyda mwy na 2,000 o ddioddefwyr cam-drin domestig, roedd dwyster y cymorth (nifer y cysylltiadau ag IDVA) a nifer yr ymyriadau (gwasanaethau a chymorth gan asiantaethau eraill) yn cyfateb i leihad yn nifrifoldeb ac amlder yr achosion o gam-drin. Felly, gyda mwy o gyswllt a chymorth mwy amrywiol, roedd dioddefwyr yn cael eu cam-drin yn llai aml ac roedd y gamdriniaeth honno yn llai difrifol.[7] Yn ogystal â gwasanaethau IDVA arbenigol, canfu'r astudiaeth hefyd fod angen i ddioddefwyr gael 'model o ddiogelwch parhaus' er mwyn diwallu'r myrdd o anghenion sy'n datblygu dros gyfnod o gamdriniaeth[8].

Gwelir y mathau o ymyriadau a ddefnyddiwyd a pha mor aml y defnyddiwyd pob un yn y tabl isod[9].




Mae'r tabl hwn yn dangos yr amrywiaeth o gymorth y gall fod ei angen ar y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig er mwyn lleihau'r niwed a wynebir ganddynt. Mae hyn yn debygol o fod yn wir hefyd am y rhai sy'n dioddef trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

### Amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn well

Mewn ymchwil gan SafeLives[10] (CAADA yn flaenorol) ar waith MARAC a Chynghorwyr IDVA, roedd gan ddau o bob tri dioddefwr blant yn byw yn y cartref lle'r oedd cam-drin domestig yn digwydd neu roedd plant yn ymweld â'r cartref hwnnw. Roedd y rhan fwyaf o'r plant hyn o dan bump oed ac wedi bod yn byw gyda'r gamdriniaeth gydol eu hoes bron. Ar gyfartaledd, roedd yn cymryd blwyddyn yn hirach i ddioddefwyr â phlant gael gafael ar gymorth o gymharu â'r rhai heb blant. Mae plant sy'n byw gyda thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn wynebu mwy o risg o ddatblygu problemau ymddygiadol a thrawma emosiynol, yn ogystal ag anawsterau iechyd meddwl pan fyddant yn oedolion[11].

Drwy lunio ymateb mwy cyflawn i bobl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, dylid nodi'r angen am help yn gynt a sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i helpu, er mwyn cynnig ymateb pwrpasol a chyflymach i ddioddefwyr a'u plant. Dylai ymateb cynharach leihau'r niwed a ddioddefir gan ddioddefwyr a'u plant a lleihau nifer yr ymyriadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Dylai hefyd ganiatáu ymyriadau cynharach er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad camdrinwyr.

Yn aml, mae oedolion sy'n agored i niwed yn defnyddio gwasanaethau yn rheolaidd. Gall eu dibyniaeth ar y gwasanaethau hyn a'r gofalwyr sy'n eu darparu gynyddu'r risg y gallant gael eu cam-drin a'i gwneud yn llai tebygol y

byddant yn datgelu unrhyw fath o gamdriniaeth. Prin iawn yw'r ymchwil a wnaed yn y maes hwn ond, yn ôl un astudiaeth, gall 50% o fenywod anabl yn y DU fod wedi profi cam-drin domestig yn ystod eu bywydau[12]. Bydd dull amlasiantaethol yn sicrhau y rhoddir cymaint o fewnbwn â phosibl er mwyn creu ymateb priodol ar gyfer y rhai sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Canlyniadau gwell i'r rhai sydd ag anghenion cymhleth: camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl

Cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin yw'r achos mwyaf cyffredin o iselder a phroblemau iechyd meddwl eraill ymhlith menywod[13] ac mae'n arwain at gyfraddau hunan-niwed a hunanladdiad ymhlith goroeswyr sydd o leiaf bedair gwaith yn uwch nag ar gyfer y boblogaeth menywod yn gyffredinol.[14]

Lle mae dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dioddef problemau iechyd meddwl - p'un ai o ganlyniad i'r gamdriniaeth neu lle mae'r problemau iechyd meddwl yn eu gwneud yn fwy agored i niwed - mae ymyriadau seicolegol yn annhebygol o wella eu bywydau heb fynd i'r afael â'r gamdriniaeth neu'r trais, asesu'r risg a helpu cleientiaid i fod yn ddiogel. Mae angen cydnabod effaith seicolegol y gamdriniaeth yn y therapi hefyd. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, yng Nghymru, mynychir 70% o gynadleddau MARAC yn gyson gan wasanaethau iechyd meddwl sy'n darparu adnodd ychwanegol amhrisiadwy wrth gynllunio camau gweithredu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau mewn modd problematig a cham-drin wedi'i sefydlu gan sawl astudiaeth. Mae ymchwil wedi dangos bod menywod sydd wedi profi trais 5.5 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef problem camddefnyddio sylweddau yn ystod eu bywyd[15] a bod defnydd cronig o alcohol neu gyffuriau gan gamdriniwr yn ffactor risg wrth asesu'r risg i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Mewn rhai ardaloedd, mae problemau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i gael eu trin ar wahân. Yn adolygiad y Swyddfa Gartref o Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig, un o'r themâu cyffredin oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o'r ffordd orau o weithio gyda'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth sydd hefyd ag anghenion iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.[16] Mae dull gweithredu mwy effeithiol yn cyfuno arbenigedd arbenigwyr ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac asiantaethau eraill.

### Ymateb cyson i unigolion sy'n wynebu risg

Ni waeth pa asiantaeth neu weithiwr proffesiynol y bydd dioddefwr neu gamdriniwr yn cysylltu ag ef/hi gyntaf, dylai gael yr un ymateb. Dylai pob asiantaeth roi'r un negeseuon i ddioddefwyr: nid yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol yn cael eu goddef, nid bai'r dioddefwr ydyw, ac mae help ar gael.

Gellir cyfleu'r un negeseuon drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, mewn swyddfeydd cyhoeddus, i staff ac i ddioddefwyr pan fyddant yn datgelu achosion o'r fath. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gam sylweddol tuag at newid diwylliant lle mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mor annerbyniol â cham-drin plant. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd i gysoni prosesau ac ymatebion y gellir sicrhau bod y negeseuon hyn yn gyson ddibynadwy, gan roi hyder i ddioddefwyr yn yr ymateb a roddir iddynt.

### Costau is a rhannu costau

Mae gwaith Sylvia Walby, *The Cost of Domestic Violence*, wedi helpu i wella ein dealltwriaeth o gostau trais domestig. Yn ei hymchwil wreiddiol (2004), aeth ati i gyfrifo faint oedd trais domestig yn ei gostio i Gymru a Lloegr. Diweddarodd y gwaith hwn yn 2009 ac, yn seiliedig ar ei hymchwil ac amcangyfrifon yn seiliedig ar y boblogaeth, amcangyfrifwyd bod trais domestig yng Nghymru yn costio £303.5 miliwn y flwyddyn - £202.6 miliwn mewn costau gwasanaeth a £100.9 miliwn mewn colledion mewnbwn economaidd.

Yn ei hymchwil fwy diweddar[17], canfu fod cyfanswm cost trais domestig wedi gostwng £23 biliwn i tua £16 biliwn y flwyddyn. Canfu fod y lleihad mewn costau wedi digwydd yn rhannol oherwydd datblygiad gwasanaethau cyhoeddus a'r defnydd cynyddol ohonynt, gan ddangos bod y buddsoddiad mewn ymatebion yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn gosteffeithiol.

### Gwybodaeth a chynllunio gwell

O ran sawl agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, e.e. FGM a'r hyn a elwir yn drais ar sail "anrhydedd", mae tangofnodi wedi arwain at ystadegau annibynadwy sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu'r sefyllfa drwy ddadansoddi angen. Gyda mwy o ymwybyddiaeth ac ymatebion mwy datblygedig gan bob corff cyhoeddus i'r materion hyn, bydd y sail dystiolaeth yn gryfach ac yn llywio gwaith cynllunio a gwasanaethau gwell.

### Cyfrifoldeb ar y cyd

Drwy weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd asiantaethau partner yn ymwybodol o'r newidiadau mewn gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar y llwybr gofal. Drwy gydweithio, gellir amlygu, cyfleu a mynd i'r afael â newidiadau er mwyn sicrhau nad yw dioddefwyr yn disgyn drwy'r craciau pan fydd gwasanaethau'n cael eu cwtogi, eu hehangu neu'n newid eu cylch gwaith. Bydd y cydweithio agos hwn yn helpu'r bartneriaeth i reoli unrhyw dwf, cwtogi neu newidiadau i wasanaethau fel y gellir parhau i sicrhau canlyniadau cyffredinol.

### Nodi ac ymateb i risgiau a grëir gan wasanaeth

Un broblem gyda gwaith amlasiantaethol nad yw'n cael sylw yn aml yw 'risgiau a grëir gan wasanaeth'[18] neu 'risgiau a grëir gan ymyriad'[19]. Mae'r rhain yn

disgrifio achlysuron pan fo systemau neu ymarfer gweithwyr proffesiynol yn creu neu'n cynyddu'r risg i'r cleient gan y camdriniwr, neu'n creu rhwystrau ychwanegol i'r cleient. Drwy gydweithio a chynnwys cam yn y broses gynllunio sy'n gofyn a fydd y camau y bwriedir eu cymryd yn cynyddu'r risg neu'r trafferthion i'r cleient gan y camdriniwr, gall y bartneriaeth sicrhau bod ganddi ddarlun llawnach o'r risg i'r cleient.

Cododd y term hwn wrth fynd ati i ddeall sut y gall gwaith amlasiantaethol ym maes cam-drin domestig fynd o'i le, ond bydd yn berthnasol i bob strwythur yng nghyswllt unrhyw fath o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol.

Nid yw nodi risg a grëir gan wasanaeth yn rheswm dros beidio â gweithredu. Yn hytrach, dylai ysgogi asiantaethau i wneud cynlluniau pellach i ddiogelu mewn achos unigol a mynd i'r afael ac addasu unrhyw strwythurau sy'n creu risgiau o'r fath yn rheolaidd.

### Gwerth cydweithredu i ddioddefwyr

Mae pobl sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dweud bod gweithio mewn partneriaeth yn werthfawr iddynt yn y ffyrdd canlynol:

- dim ond unwaith y mae'n rhaid iddynt sôn am eu camdriniaeth;
- maent yn cael help y tro cyntaf y maent yn sôn wrth unrhyw un;
- maent yn cael yr un ymateb gan bob asiantaeth;
- maent yn cael eu helpu i ddeall y gwahanol reolau a meini prawf sydd gan wahanol asiantaethau; ac
- maent yn cael eu harwain, drwy fap llwybr, at ddiogelwch a bywyd gwell a mwy cyfartal.


Cadarnheir dealltwriaeth dioddefwr bod ganddo'r hawl i fod yn rhydd o ofn a chamdriniaeth pan roddir yr un ymateb cyson iddo gan bawb. Mae'n deall bod ei gymuned a'r gwasanaethau sy'n ei chefnogi yn gweithio i sicrhau'r hawliau hynny.

## 6. Cydweithredu o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn aml, bydd cydweithredu o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn canolbwyntio ar fforymau amlasiantaethol sy'n dwyn sefydliadau ynghyd i reoli achosion y rhai sy'n wynebu risg a'u cefnogi. Mae hon yn elfen sylfaenol a hanfodol o unrhyw ymateb effeithiol i'r rhai sy'n wynebu risg, ac mae'r canllawiau hyn yn amlinellu sut y dylid datblygu a chynnal fforymau o'r fath.

Fodd bynnag, nid yw fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog yn gweithio oni bai y cânt eu harwain yn strategol a'u monitro a'u llywodraethu gan grwpiau gweithredol. Dim ond pan geir ymateb cyfunol a chydgysylltiedig ar draws y gwasanaeth cyhoeddus y bydd dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ymateb sy'n gyson, yn effeithiol ac yn barhaus.

Mae'r diagram isod yn dangos sut y dylai'r tair lefel gydweithio:




### Beth yw rôl y bartneriaeth?

Bydd angen i ardaloedd lleol benderfynu beth yw rôl partneriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y fframwaith lleol. Bydd angen i unrhyw bartneriaeth feddu ar gysylltiadau cryf â'r Bwrdd Diogelu Lleol, Diogelu Oedolion, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd ar ddod a Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl. Bydd angen i bartneriaid strategol ddeall sut mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhan o'r holl

agendâu eraill a sicrhau bod partneriaid ar y Byrddau hynny yn gweld y cysylltiadau hefyd.

### Pwy yw'r partneriaid?

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn rhagnodi mai Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub ac ymddiriedolaethau'r GIG yw'r awdurdodau perthnasol. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau perthnasol hyn fod yn bartneriaid.

Yn amlwg, mae gwaith partneriaeth cryf yn mynd y tu hwnt i'r awdurdodau perthnasol a nodir yn y Ddeddf. Mae'n rhaid i bob gwasanaeth, p'un a yw'n wasanaeth datganoledig, statudol, anstatudol neu'n wasanaeth trydydd sector arbenigol, ymgysylltu a chymryd rhan.

Y partneriaid craidd sydd eu hangen i gynnig ymateb cadarn i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw'r Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion, y Gwasanaeth Prawf, Tai, Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Addysg, Gwasanaethau Iechyd (Damweiniau ac Achosion Brys, Ymddiriedolaethau'r GIG, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Gwasanaethau Mamolaeth, Meddygon Teulu), Gwasanaethau Ieuenctid, cydgysylltwyr Dechrau'n Deg a Thîm o Amgylch y Teulu a'r trydydd sector arbenigol.

Nodwyd bod gan bartneriaid penodol ddyletswydd i gymryd rhan mewn gwaith amlasiantaethol penodol, e.e. Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ac Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig (DHR).

Dyma'r partneriaid sydd eu hangen er mwyn cynnig ymateb cymunedol cydgysylltiedig i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

- sefydliadau cymunedol
- llysoedd
- gwasanaethau cyffuriau ac alcohol
- addysg
- cyflogwyr
- darparwyr iechyd
- gwasanaethau cyfreithiol a gweithwyr proffesiynol y gyfraith
- adrannau tai ALlau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- gwasanaethau amddiffyn y cyhoedd – yr heddlu a'r gwasanaeth prawf
- gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau arbenigol
- sefydliadau gwirfoddol
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Rôl y trydydd sector arbenigol

Un o wendidau cyffredin y partneriaethau hyn yw eu bod yn adlewyrchu byrddau statudol drwy ganolbwyntio ar rwymedigaethau statudol a'r gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol ganddynt. Yn aml, maent yn anwybyddu gweithgareddau a chyfraniadau nad ydynt yn eu rheoli nac yn eu hariannu. Ers degawdau, mae gwasanaethau i ddioddefwyr wedi'u darparu gan y trydydd sector arbenigol ac mae'r sefydliadau hyn wedi datblygu arbenigedd a ddylai fod yn allweddol i'r gwaith partneriaeth hwn.

Felly, dylai gwaith fforymau amlasiantaethol gynnwys y trydydd sector arbenigol. Mae'r sector yn darparu arbenigwyr mewn agweddau gwahanol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n deall, drwy eu gwaith gyda chleientiaid, y rhwystrau yn y system. Gallant ddarparu profiad y dioddefwr i unrhyw grŵp amlasiantaethol.

Dylai pob gwasanaeth ac asiantaeth sy'n gweithio gyda dioddefwyr a chamdrinwyr mewn unrhyw gapasiti, boed yn ddatganoledig, yn annatganoledig, wedi'i ariannu/hariannu'n gyhoeddus neu'n rhan o'r trydydd sector arbenigol, fod yn rhan o'r bartneriaeth ar ryw lefel. Drwy greu'r bartneriaeth eang hon, bydd yr holl wasanaethau yn cysylltu â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd, gan ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Lle y comisiynwyd y trydydd sector arbenigol i wneud hyn, byddant yn cyflawni nodau strategol y bartneriaeth. Y tu allan i ffrydiau ariannu canolog a lleol, bydd y trydydd sector arbenigol hefyd yn nodi anghenion ychwanegol yn y gymuned y maent yn gweithio ynddi. Er mwyn gwneud hyn, byddant yn aml yn codi arian eu hunain, gan gyfrannu at yr arian a gaiff ei wario ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn lleol a chynyddu'r ddarpariaeth yn lleol.

O ystyried y cyfraniad hwn a'r arloesedd a ddangosir yn aml gan y trydydd sector arbenigol, mae'n hanfodol bod partneriaethau'n cydweithredu'n ofalus o ran gwaith cynllunio. Mae darpariaeth gyson yn hollbwysig, felly hefyd y gydymdrech tuag at sicrhau canlyniadau clir.

## 7. Cydweithredu'n strategol

### Rôl y Bartneriaeth Strategol

Caiff partneriaethau strategol eu creu er mwyn mynd i'r afael â nodau cyffredin yng nghyswllt angen cymunedol penodol. Caiff yr amcanion hyn eu nodi orau drwy ddadansoddiad strategol o anghenion, fel y rhai a wneir gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Yn ddelfrydol, bydd y rhai sy'n eistedd ar grŵp partneriaeth strategol i dargedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cynnwys Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr eu sefydliadau, Cadeiryddion y grŵp gweithredol (gweler Pennod 8) ac is-bwyllgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen penodol. Mae angen iddynt feddu ar yr awdurdod, yn eu sefydliad eu hunain, i gysylltu gwaith unrhyw bartneriaethau â'u strategaeth leol eu hunain ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015), er mwyn iddynt adlewyrchu ac ategu ei gilydd a chyflwyno gwelliannau. Mae angen iddynt roi arweiniad o fewn y bartneriaeth ac o fewn eu sefydliad, a meddu ar y gallu i ddileu unrhyw rwystrau systemig i gyflawni nodau'r grŵp.

Dylai aelodau'r grŵp hwn gynnwys y partneriaid craidd sydd eu hangen i ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gynnwys sefydliadau datganoledig, sefydliadau annatganoledig a sefydliadau trydydd sector arbenigol er mwyn sicrhau bod gan y grŵp hwn y persbectif a'r ystod wybodaeth ehangaf posibl.

### Penderfynu ar nodau strategol

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar baratoi strategaeth leol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ceir braslun yma.

Dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol fod wedi nodi cyfrifoldebau o fewn eu strategaeth leol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 sy'n cael eu monitro, eu hadrodd a'u dadansoddi gan y ddau awdurdod. Bydd angen iddynt gytuno ar gyfres gyffredin, integredig o ganlyniadau a set ddata gydgysylltiedig er mwyn llywio eu trosolwg o'r modd y caiff y strategaeth ei chyflawni.

Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o asesiadau statudol y mae'n rhaid i'r ddau awdurdod eu hystyried wrth baratoi'r strategaeth leol, gan gynnwys:

- yr asesiad a wneir gan yr Awdurdod Lleol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (asesiad o anghenion y boblogaeth o ran gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol);

- yr asesiad strategol a baratoir yn unol â rheoliadau o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (c.37) sy'n ymwneud â lleihau troseddau ac anhrefn yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Bydd yr asesiadau o anghenion a'r gwaith o baratoi strategaethau lleol yn rhoi gwybod i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol pa gydweithredu fydd ei angen er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

### Casglu tystiolaeth a monitro canlyniadau

Bydd y gwaith hwn yn gofyn am ddatblygu set gydlynol o ddata a fydd yn monitro'r llwybr gofal ac yn asesu a yw'r amcanion strategol yn cael eu cyflawni.

Bydd angen i bartneriaid wahaniaethu'n glir rhwng data monitro a chanlyniadau:

- Bydd angen adolygu data monitro a gesglir ar hyd y llwybr gofal i weld a oes newid sylweddol yn digwydd ar hyd y ffordd. Er enghraifft, mae sawl pwynt ar hyd y siwrnai o roi gwybod am drosedd i erlyniad llwyddianus lle y gellir casglu data a gwybodaeth er mwyn adolygu'r broses.

- Bydd y canlyniadau'n dweud wrthym a yw unigolion sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu gwneud yn fwy diogel. Mae hwn yn faes heriol i asiantaethau partner ac yn un lle bydd cydweithrediad rhanbarthol a chenedlaethol yn hanfodol. Dylai'r canlyniadau **bob amser** gynnwys gwybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Dylai fforymau a ddatblygir er mwyn diwallu anghenion dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn casglu ac yn darparu data i asesu effaith y gwaith hwn ar ddioddefwyr ac, felly, ar y nodau strategol.

### Gwreiddio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mhob agenda

Disgwylir i bartneriaid strategol hyrwyddo'r gwaith a wneir a'r gwasanaethau a ddarperir mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar Fyrddau eraill a sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gysylltu ag agendâu eraill. Bydd y bartneriaeth strategol yn creu atebolrwydd (lle bo hynny'n briodol) a dulliau o gyfathrebu â byrddau strategol eraill, e.e. Byrddau Gwasanaethau Lleol, Byrddau Diogelu Lleol, Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru[20]. Bydd yn bwysig sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol - er mwyn sicrhau bod unrhyw raglenni a gwasanaethau newydd neu bresennol a ddatblygir yn ategu ei gilydd a bod unrhyw wrthdaro neu ddyblygu yn cael ei nodi a'i ddatrys yn gyflym. Wrth sefydlu gwasanaethau newydd, rhaid ystyried y ddarpariaeth bresennol a ph'un a ellir ei defnyddio neu ei haddasu.

Bydd mantais hefyd wrth gyfathrebu'n rhanbarthol er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac, wrth wneud hynny, bydd y ddarpariaeth i'r rhai sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r ymateb i'r camdrinwyr, yn unedig.  Gallai hyn hefyd hwyluso'r defnydd gorau posibl o adnoddau. Dylai partneriaid feddwl am gysylltu â strwythurau arweinyddiaeth

rhanbarthol fel y Gwent 'G7', Bwrdd Cydweithredu Cwm Taf a Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

### Cyllid

Un her benodol i bartneriaethau strategol yw sicrhau bod cyllid yn cael ei alinio er mwyn cyflawni'r nodau strategol a'i fod yn cael ei wario yn unol â'r anghenion a'r amcanion cytûn a nodwyd. Bydd y bartneriaeth am ystyried pa brosesau sydd eu hangen i gyflawni hyn, fel cyd-gomisiynu neu gyd-ariannu.
Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd symudiad tuag at gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a diddordeb pellach ym manteision cyd-gomisiynu. Mae cronni cyllid yn gyfle i osgoi dyblygu gwasanaethau, sicrhau gwerth am arian ac effeithlonrwydd, datblygu gwasanaethau cydgysylltiedig a rhannu arfer gorau, arbenigedd a gwybodaeth am anghenion. Mae hwn yn faes heriol i bartneriaid ond gall sicrhau bod eu cyfraniadau yn cael yr effaith fwyaf posibl.

Gall dadansoddiadau cost a budd helpu i nodi'r asiantaethau fydd yn elwa fwyaf ar fuddsoddi. Fel man cychwyn, mae cost amcangyfrifedig ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol ar gael[21]. Mae'n dadansoddi costau ar gyfer gofal iechyd corfforol a meddyliol, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, gwasanaethau cyfreithiol sifil ac allbwn economaidd a gollwyd, yn ogystal â chostau dynol ac emosiynol. Mae rhai awdurdodau wedi meithrin persbectif ychwanegol ar eu partneriaeth drwy gynnwys y buddsoddiad y mae sefydliadau trydydd sector arbenigol yn ei wneud mewn darpariaeth leol drwy eu gweithgareddau codi arian eu hunain ac arian a ddarperir gan ffynonellau eraill, fel ymddiriedolaethau dyfarnu grantiau. Mewn un ardal, roedd hynny gymaint â 30% o'r buddsoddiad yn lleol.

Bydd angen i'r cyllid adlewyrchu anghenion a daearyddiaeth leol, fel y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardal wledig, ac anghenion penodol gwahanol boblogaethau. Bydd angen i gomisiynwyr weithio gyda darparwyr a phartneriaid hefyd i benderfynu ai drwy wasanaethau sy'n bodoli eisoes neu drwy gomisiynu gwasanaethau newydd penodedig y diwellir anghenion yr agweddau llai datblygedig ar drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol orau.

Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylai'r bartneriaeth ystyried yr arbenigedd a'r strwythur a gynigir gan wasanaethau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, a'r gwerth a ychwanegir gan sefydliadau arbenigol.

Un o gostau cudd darparu gwasanaethau arbenigol yw'r ffaith y caiff darpariaeth ei cholli oherwydd cylchoedd ariannu byr lle y collir amser ac arian drwy ailgymhwyso ac addasu gwasanaethau i fanylebau newydd. Wrth gomisiynu gwasanaethau, dylai partneriaid gydnabod yr anawsterau hyn a wynebir gan wasanaethau a cheisio eu lleihau cymaint â phosibl, gan symleiddio'r broses lle y bo modd ac adolygu ac ymestyn cylchoedd ariannu lle y bo hynny'n ymarferol.

Bydd angen i'r bartneriaeth hefyd nodi cyllid i gefnogi fforymau amlasiantaethol o ran cymorth gweinyddol, casglu data a dadansoddi.

## Arloesedd y trydydd sector arbenigol

Mewn partneriaethau cryf, caiff y trydydd sector arbenigol ei ariannu i ddarparu gwasanaethau penodol ac mae hefyd yn parhau i godi arian i lansio prosiectau a fydd, os ydynt yn llwyddiannus, yn diwallu anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth. Gall y bartneriaeth strategol helpu gwasanaethau o'r fath i wneud cais am gyllid allanol ac felly gynyddu'r ddarpariaeth leol.

Drwy sicrhau bod y bartneriaeth yn effro i'r mentrau newydd hyn a'i chynnwys yn y broses gynllunio, gall cynlluniau peilot o'r fath gael eu cefnogi drwy atgyfeiriadau ac argymhellion y bartneriaeth leol, yn ogystal ag adborth. Gellir hefyd sicrhau bod arloesedd yn cyfrannu at y cyfeiriad strategol yn lleol. Bydd y bartneriaeth yn ennill gwasanaethau ychwanegol a ddylanwedir gan nodau'r bartneriaeth ac yn cael syniad o'r gwasanaethau y gallent eu comisiynu yn y dyfodol.

## Atebolrwydd

Wrth weithio mewn partneriaeth, mae angen lefel o ymgysylltiad ac ymrwymiad i'r agenda hon a fydd yn newydd i rai - ymrwymiad sy'n golygu y gall partneriaid ddwyn hwy eu hunain a'u hasiantaeth i gyfrif, er enghraifft, am y canlynol:

- ymgysylltu ar y lefel gywir a sicrhau bod eu sefydliad yn ymgysylltu â grwpiau'r bartneriaeth - grwpiau strategol, grwpiau gweithredol neu fforymau amlasiantaethol - a bod gan y sawl sy'n mynychu yr awdurdod i siarad ar ran eu sefydliad ar y materion hynny;
- cyfranogi mewn gwaith amlasiantaethol priodol;
- darparu arweinyddiaeth er mwyn addasu arferion gwaith eu hasiantaethau eu hunain a rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella ymateb asiantaethau a dileu risgiau a grëir gan wasanaethau;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am faterion perthnasol;
- cyfrannu at set ddata gyffredin, integredig a chytûn sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth y bartneriaeth o anghenion a darpariaeth leol;
- darparu cyllid, lle y bo'n briodol; a
- gweithio gyda phartneriaid a chefnogi gwaith y Cynghorydd Cenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth a monitro, cydgysylltu a gwella darpariaeth ac arferion.

## 8. Cydweithredu'n weithredol

### Rôl y bartneriaeth weithredol

Mae partneriaeth weithredol amlasiantaethol yn sicrhau yr eir i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r partneriaethau gweithredol yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r rhai sy'n cyflawni'r camau gweithredu. Penaethiaid Gwasanaeth neu Gyfarwyddwyr Cynorthwyol sy'n deall goblygiadau ymarferol y nodau strategol yw aelodau'r bartneriaeth weithredol.

Bydd aelodaeth y grŵp hwn yn adlewyrchu aelodaeth y grŵp strategol ac yn defnyddio gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol i gyflawni unrhyw amcanion strategol a nodwyd.

Mae'r partneriaethau gweithredol yn debygol o fod yn gyfrifol am y canlynol:

### Creu llwybr gofal

Bydd angen i'r bartneriaeth sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau amlasiantaethol ar waith i gefnogi gwaith amlasiantaethol a dwyn sefydliadau i gyfrif. Yn benodol, bydd y bartneriaeth weithredol yn sicrhau bod gan bob partner lwybr gofal i'w ddefnyddio ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dylai'r llwybr gofal hwn gynnwys gwasanaethau lleol a chenedlaethol a threfniadau presennol ar gyfer rhoi gwybodaeth ac arweiniad pellach i staff.

Mae protocol cytûn ar rannu gwybodaeth yn hanfodol i'r gwaith hwn. Caiff cyngor ar rannu gwybodaeth ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ganllawiau statudol ar "Gofyn a Gweithredu".

### Creu a llywio cynllun gweithredu sy'n cyflawni'r nodau strategol

Dylai'r bartneriaeth weithredol gydweithredu er mwyn cyflawni'r nodau strategol drwy gynllun gweithredu sy'n rhan o'r strategaeth leol. Gall y grŵp gweithredol fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi, gan gyfeirio pryderon at y grŵp strategol os na ellir eu datrys ar lefel weithredol. Dylai'r broses gydweithredu ganolbwyntio ar atebion a dylai nodi unrhyw risgiau a grëir gan wasanaethau a mynd i'r afael â hwy.

Rhaid i'r grŵp gweithredol ddeall sut a ble y mae angen i'r prosesau presennol newid er mwyn cynnwys ymatebion i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a nodi pan fydd y cynllun gweithredu ar ei hôl hi neu pan na fydd yn cyflawni'r nodau strategol.

Dylai fod gan bob partner gamau gweithredu yn y cynllun a dylai partneriaid ddwyn ei gilydd i gyfrif am gyflawni eu rhan hwy o'r cynllun. Pan fydd amgylchiadau neu ganlyniadau yn gofyn am newid y cynllun gweithredu, dylai'r grŵp hwn fod mewn sefyllfa dda i gynnig ffordd arall o gyflawni'r un canlyniad. Gan fod y cynllun gweithredu yn rhan o'r strategaeth leol, rhaid cyflwyno adroddiadau arno a'i adolygu'n flynyddol.

## Goruchwylio fforymau amlasiantaethol

Bydd y grŵp gweithredol yn goruchwylio ymatebion amlasiantaethol er mwyn sicrhau eu bod yn hyrwyddo amcanion y grŵp strategol.

Bydd y grŵp hwn yn gallu cefnogi'r fforymau drwy nodi'r sawl y mae dyletswydd arnynt i gyfranogi, h.y. gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau perthnasol sy'n gweithio gydag unigolyn a/neu sydd â diddordeb proffesiynol neu a allai fod â diddordeb proffesiynol mewn unrhyw unigolyn sy'n destun fforwm amlasiantaethol. Gall y grŵp gweithredol helpu i sicrhau bod gan y fforwm yr aelodaeth a'r ymgysylltiad priodol gan asiantaethau datganoledig, sefydliadau annatganoledig a sefydliadau trydydd sector arbenigol perthnasol. Dylai'r grŵp gweithredol fonitro presenoldeb a thynnu sylw'r grŵp strategol at unrhyw absenoldebau cyson.

Gall y grŵp gweithredol hefyd fynd ati i gysylltu fforymau cysylltiedig, er enghraifft, gall sicrhau bod prosesau a phrotocolau fforymau amlasiantaethol lleol yn ategu ei gilydd, gan gysylltu'r ddau â llwybr gofal ehangach.

## Galluogi lleisiau o fewn y bartneriaeth

Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau newydd, sicrhau bod y llwybr gofal yn rhedeg yn llyfn neu gynnwys lleisiau penodol yn y bartneriaeth, gall y grŵp gweithredol, lle y bo angen, greu grwpiau gorchwyl a gorffen neu is-grwpiau neu bwyllgorau sefydlog fel y bo angen. Gellir gofyn i grŵp gorchwyl a gorffen adolygu fforymau presennol yn erbyn yr anghenion a nodwyd.

Gallai grŵp o'r fath adrodd ar y modd y gellir addasu fforwm amlasiantaethol presennol er mwyn mynd i'r afael â grŵp cleientiaid ehangach, neu adolygu'r angen am fforwm newydd. Gallai grŵp gorchwyl a gorffen gael ei ffurfio hefyd er mwyn adolygu gwasanaethau presennol yn erbyn y cynllun gweithredu newydd. Mae'n debygol y bydd gan grwpiau o'r fath amcan clir ac amserlen benodol.

Gall is-grwpiau sefydlog partneriaethau gweithredol o'r fath gynnwys y canlynol:

- Pwyllgor Llywio MARAC - mae'r grŵp hwn yn goruchwylio'r broses MARAC, yn sicrhau atebolrwydd yr asiantaethau sy'n cyfranogi, yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac yn dangos ei bod yn broses sy'n sicrhau cydraddoldeb a chanlyniadau i ddioddefwyr.
- Is-grŵp iechyd - fel bod gwasanaethau iechyd yn gallu mynd i'r afael â phroblemau cyffredin gyda'i gilydd a rhoi llais iechyd cryf i'r bartneriaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Thema gyffredin mewn Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig yw bod angen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth well o gam-drin domestig ar feddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.[22]
- Is-grŵp Cyfiawnder Troseddol - er mwyn sicrhau bod systemau'r llysoedd yn ymateb i anghenion penodol y grŵp cleientiaid hwn ac yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl. Gallai'r grŵp hwn hefyd gasglu canlyniadau cyfiawnder troseddol ar gyfer y grŵp cleientiaid hwn ac adrodd arnynt.

- Grŵp Cynghori Arbenigol - ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y grŵp hwn yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynwyd a gwasanaethau heb eu comisiynu ac yn gweithio i sicrhau bod y llwybr gofal yn rhedeg yn llyfn i bob dioddefwr, gan nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau a bylchau rhyngddynt yn gynnar a mynd i'r afael â hwy. Gall rannu a datblygu arfer gorau a chynnig arbenigedd i'r bartneriaeth.
- Grwpiau defnyddwyr gwasanaeth - ar gyfer grymuso'r rhai yr oedd angen y gwasanaethau arnynt a chasglu mewnbwn ganddynt ynghylch sut i wella'r gwasanaethau hynny. Gall defnyddwyr gwasanaeth sôn wrth ddarparwyr a chyllidwyr lle y byddai'r arian yn cael ei wario orau. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid yn 2013-14 i gefnogi prosesau rhanbarthol defnyddwyr gwasanaeth a chyhoeddodd ganllawiau arfer gorau ym mis Medi 2013 ar sut i sefydlu grwpiau o'r fath sydd i'w cael ar y wefan Byw Heb Ofn[23].

### Monitro perfformiad

Dylai'r grŵp gweithredol gasglu gwybodaeth am arferion rheng flaen, gan sicrhau bod problemau'n cael eu datrys ar y lefel gywir a bod systemau'n cael eu haddasu fel y bo angen i gyflawni'r nodau. Bydd y grŵp yn nodi ac yn hyrwyddo arfer da.

Dylai'r grŵp gweithredol gasglu, dadansoddi a monitro'r holl wybodaeth am berfformiad yn erbyn y cynllun gweithredu. Gall hefyd adolygu perfformiad er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau. Gall asesu a yw'r hyfforddiant a gafodd partneriaid wedi arwain at ymgysylltiad gwell â defnyddwyr gwasanaeth, neu at nodi mwy o achosion neu fwy o atgyfeiriadau.

Bydd y grŵp gweithredol hefyd yn nodi lle y bydd angen datblygu prosesau ac arferion gyda rhanbarthau neu bartneriaethau cyfagos er mwyn mynd i'r afael â phroblemau. Er enghraifft, efallai y bydd MARAC eisiau gwneud atgyfeiriad at MARAC gyfagos a throsglwyddo gwybodaeth iddi, efallai y bydd partneriaid eisiau gwybodaeth am gamdrinwyr mynych o ardal arall neu efallai y bydd y bartneriaeth eisiau sefydlu llwybr atgyfeirio at sefydliad arbenigol sy'n gwasanaethu ardal neu ranbarth gwahanol.

Dyma rai enghreifftiau o nifer o gwestiynau monitro sylfaenol y gall y bartneriaeth weithredol eu gofyn, a'u harwyddocâd:

- a yw gwerth yr hyfforddiant yn cael ei adlewyrchu drwy gyfrwng mwy o ddatgeliadau ac atgyfeiriadau? Os nac ydyw, a yw asiantaethau partner yn helpu staff i ofyn ac ymateb i ddatgeliadau?
- a yw nifer y datgeliadau a'r atgyfeiriadau yn adlewyrchu'r nifer ddisgwyliedig, yn seiliedig ar y boblogaeth? Os nac ydyw, sut y gellir ei gwneud yn haws i bobl wneud datgeliadau?
- a yw nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol yn cyfateb i nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio? Os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y nifer sy'n cael eu hatgyfeirio a'r rhai a welir gan wasanaethau

arbenigol, nid yw'r bobl sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael yr ymateb sydd ei angen arnynt i fod yn ddiogel.

### Hysbysu'r grŵp strategol ac adrodd iddo

Mae'n rhaid i'r grŵp gweithredol sicrhau bod y grŵp strategol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud penderfyniadau, newidiadau a gwelliannau. Mae'n adrodd ar y modd y cyflawnir y cynllun gweithredu, ac yn nodi unrhyw wyriadau oddi wrth y cynllun. Caiff y mesurau perfformiad eu dadansoddi a'u darparu i'r grŵp strategol gyda sylwadau ac argymhellion. Dylai'r grŵp gweithredol dynnu sylw at y meysydd y mae angen ymyriadau strategol i'w datrys.

Yn ogystal â darparu data, dylai'r bartneriaeth weithredol ddarparu astudiaethau achos, mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a gwybodaeth am faterion sydd wedi'u nodi a'u datrys hefyd. Gall y grŵp gweithredol gynnig addasiadau i'r strategaeth leol lle mae amgylchiadau neu ganlyniadau yn awgrymu y gall fod angen mabwysiadu dull gweithredu gwahanol er mwyn diwallu nodau strategol y bartneriaeth.

## 9. Fforymau amlasiantaethol i ymateb i achosion unigol

Er mwyn rhoi ymateb cynhwysfawr i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae'n bwysig bod pob awdurdod perthnasol yn cyfrannu at, ac yn mynychu fforymau amlasiantaethol lleol sy'n hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth a diogelwch unigolion sy'n wynebu risg.

Mae'r fforymau hyn yn werthfawr iawn ar gyfer mynd i'r afael â sawl agwedd ar fywydau cleientiaid: y niwed a wynebir ganddynt, y niwed a wynebir gan eu plant, y systemau y mae'n rhaid iddynt fynd drwyddynt er mwyn cael help a'r gwendidau personol sy'n golygu eu bod yn wynebu mwy o risg. Un o brif ddibenion y cyfarfodydd hyn yw rhannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn helpu dioddefwyr a nodi camdrinwyr er mwyn eu dwyn o flaen eu gwell.

Un o ymrwymiadau gweithredol y fforymau hyn yw bod angen i'r asiantaethau dan sylw a'r byrddau y maent yn rhan ohonynt integreiddio gwaith y grwpiau hyn yn eu strwythurau mewnol, eu dulliau atebolrwydd a'u systemau casglu data, fel yr amlinellir uchod.

Wrth i asiantaethau partner elwa ar hyfforddiant a gallu nodi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn haws drwy broses 'Gofyn a Gweithredu', byddant am ddeall a chyfrannu at y partneriaethau sy'n helpu'r rhai sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Elfennau Allweddol o Fforymau Amlasiantaethol

Mae angen cydweithrediad nifer o wahanol asiantaethau er mwyn ymateb yn effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae amryw o fforymau'n bodoli er mwyn darparu ymateb o'r fath a mynd i'r afael yn briodol â phroblemau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (ceir rhestr yn atodiad 1). Mae'r fforymau hyn hefyd yn gyfle i ystyried gwendidau ychwanegol ac i ymgysylltu'n eang â gwasanaethau.

Y math mwyaf sefydledig o fforwm amlasiantaethol yng Nghymru yw'r MARAC. Mae cynadleddau MARAC wedi bod yn weithredol yng Nghymru ers dros ddeng mlynedd ac maent yn esiampl lwyddiannus o fforwm amlasiantaethol sy'n cynnig ymateb cydweithredol i'r rhai y nodir eu bod yn wynebu "risg uchel" o niwed sylweddol neu farwolaeth oherwydd cam-drin domestig. Lleolir cynadleddau MARAC ledled y wlad ac, yn ystod 2013-2014, ymdrinwyd ag achosion 6,000 o oedolion risg uchel, gan gynnwys 7,000 o blant. [24]

Mae proses MARAC yn canolbwyntio ar roi ymateb â blaenoriaeth i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu ymhellach ac achosi niwed difrifol i ddioddefwyr a phlant.  Er nad yw'n broses statudol, mae cynhadledd MARAC wedi'i hen sefydlu bellach, gyda chanlyniadau sefydledig a phrosesau datblygu.

Mae ardaloedd lleol hefyd yn datblygu ymatebion i'r rhai na chânt eu nodi fel unigolion sy'n wynebu risg uchel er mwyn darparu gwasanaethau nodi ac atal yn gynharach i'r rhai sy'n wynebu risg is. Mae hwn yn faes ymarfer pwysig ac mae ardaloedd lleol yn dangos arloesedd a chreadigrwydd er mwyn datblygu

ymatebion.  Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH), y defnydd o alwadau cynadledda a sbardunau ar gyfer amryw o ymyriadau. Mae'r arloesi hwn yn hanfodol wrth ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae'n bwysig sicrhau ymateb cyson ledled Cymru.

Er y gall ardaloedd ddewis datblygu eu modelau eu hunain, mae'n bwysig bod pob awdurdod perthnasol yn ystyried ei ymateb i'r rhai sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol nad ydynt yn wynebu risg uchel uniongyrchol o niwed difrifol, er mwyn ymyrryd yn gynt a nodi achosion lle y gallai'r sefyllfa waethygu.

Wrth wneud hyn, mae'n hanfodol bod awdurdodau perthnasol yn profi eu cynigion yn erbyn cyfres o gerrig milltir datblygiadau er mwyn sicrhau bod y model arfaethedig yn diwallu ei amcanion ac yn cynnig yr ateb angenrheidiol i'r broblem dan sylw. Ni ddylid creu modelau gwaith amlasiantaethol er eu mwyn eu hunain; rhaid iddynt fod yn effeithiol ac yn bwrpasol.

## 10. Rôl sefydliadau unigol yn y broses gydweithredu

Mae gweithio'n gydweithredol yn fwy na mynychu cyfarfodydd a fforymau. Pan fydd partneriaid yn dychwelyd i'w sefydliadau eu hunain, mae ganddynt gyfrifoldeb i barhau â gwaith y bartneriaeth a sicrhau bod gwaith eu hasiantaeth yn adlewyrchu'r nodau cydweithredol.

Mae egwyddorion cynrychioli sefydliad yn dda mewn partneriaethau yn debyg p'un a yw'r bartneriaeth yn un strategol neu weithredol. Ym mhob grŵp partneriaeth, partneriaid unigol yw llais eu hasiantaeth. Maent yn nodi lle mae nodau eu hasiantaeth hwy yn cefnogi ac yn ychwanegu at amcanion y bartneriaeth a lle mae cydweithio yn cael mwy o effaith ac yn creu'r cysylltiadau â strategaethau eraill.

### Arweinyddiaeth o fewn y sefydliad

Dylai'r unigolyn sy'n arwain y gwaith o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn asiantaethau partner oruchwylio ymdrechion yr asiantaeth a darparu ysgogiad strategol o fewn y sefydliad.

Bydd angen i'r arweinwyr sefydliadol hyn ddangos arweinyddiaeth a defnyddio eu dylanwad ar gydweithwyr a staff i sicrhau bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes craidd, er mwyn bodloni'r gofynion a nodir ym Mhennod 5.

Dylai protocolau rhannu gwybodaeth gael eu llunio yn unol â fframwaith WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru).[25] I rai asiantaethau partner, gall y protocolau hyn ofyn am newid diwylliant a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd angen cyflwyno newidiadau o'r fath yn ofalus fel na chaiff hyder staff ei danseilio.

### Systemau ymatebol o fewn y sefydliad

Bydd angen i bartneriaid sy'n cydweithredu'n weithredol ac yn strategol greu systemau ymatebol o fewn eu sefydliadau eu hunain er mwyn sicrhau bod nodau'r bartneriaeth yn cael eu cyflawni.

Bydd y rhain yn cynnwys adolygu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol a sicrhau bod hyfforddiant cydnabyddedig a phriodol yn cael ei ddarparu i staff, gan fodloni'r gofyniad i gynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus drwy hyfforddiant amlasiantaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd.

Bydd angen i bartneriaid atgyfnerthu'r hyfforddiant y mae staff yn ei dderbyn gyda thrafodaethau mewnol a hyfforddiant ar brosesau mewnol. Bydd hyn yn cynnwys dod o hyd i rywle cyfrinachol i "Ofyn a Gweithredu". O ran y sefydliadau y nodwyd eu bod yn cynnwys proffesiynau â blaenoriaeth ar gyfer "Gofyn a Gweithredu", bydd angen i bartneriaid strategol oruchwylio'r broses o ddatblygu'r newid hwn mewn ymarfer. Caiff canllawiau ar wahân ar "Ofyn a Gweithredu" eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru bolisi gweithle ar

gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a ddylai amlinellu'r cymorth a gynigir i'r rhai sy'n wynebu risg ac sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad staff sy'n ymdrin â'r materion hyn. Mae hwn yn arfer da a dylai asiantaethau partner eraill, gan gynnwys y trydydd sector arbenigol, ddilyn eu hesiampl.[26]

Dylai partneriaid sicrhau bod eu harferion cyflogaeth yn cefnogi staff sy'n datgelu camdriniaeth drwy weithredu i'w cadw'n ddiogel yn y gwaith a'u helpu i aros yn ddiogel y tu allan i'r gwaith.[27] Dylai staff gael eu briffio ar hyn a dylid ailadrodd y neges hon i staff yn rheolaidd.

### Monitro perfformiad

Bydd data am berfformiad yn hanfodol i'r gwaith o wella gwasanaethau. Bydd hefyd yn wybodaeth hanfodol i'r bartneriaeth ei chael a'i chyfuno â data gan asiantaethau partner eraill er mwyn cael darlun llawn o'r hyn sy'n cael ei gyflawni drwy gydweithredu.  Nodir gofynion penodol mewn perthynas â chasglu data ym Mhennod 4.

Dylai'r wybodaeth hon gael ei chasglu a'i defnyddio o fewn asiantaethau i lywio a gwella eu gwasanaethau, a dylai hefyd gael ei rhoi i'w partneriaid. Dylai dangosyddion rheoli perfformiad yr asiantaethau partner eu hunain gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

O fewn eu hasiantaethau eu hunain, bydd angen i bartneriaid strategol hefyd neilltuo adnoddau er mwyn hwyluso'r nodau strategol.  Gall hyn gynnwys arian ar gyfer hyfforddi staff, yn ogystal â sicrhau bod ganddynt yr amser i gymryd rhan yn y cyfryw ddulliau dysgu. Bydd angen i bartneriaid sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir ganddynt yn cyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

### Yn cefnogi gwaith fforymau amlasiantaethol

Dylai pob partner sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac sydd â gwybodaeth i'w rhannu gyfrannu at fforymau amlasiantaethol. Caiff y fforymau hyn eu sefydlu er mwyn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo diogelwch unigolion sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Er mwyn i staff gyfrannu'n briodol at y fforymau hyn, bydd angen i'w hasiantaeth wneud y canlynol:

- nodi rhywun ar y lefel gywir sy'n meddu ar y wybodaeth briodol;
- penderfynu pa wybodaeth a data perthnasol sydd gan yr asiantaeth i'w rhannu;
- cysoni polisïau diogelu data mewnol â pholisïau a phrosesau rhannu gwybodaeth y fforwm;
- penderfynu sut a phwy fydd yn tynnu gwybodaeth o'r system ar gyfer y gwaith hwn a sut y bwriedir cofnodi a storio unrhyw wybodaeth a geir drwy'r fforwm;
- diweddaru systemau mewnol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau newydd hyn,

e.e. drwy greu'r capasiti i fflagio ffeil neu ychwanegu maes newydd at system electronig i wneud chwiliad penodol;

- bwydo canlyniadau proses y fforwm yn ôl i'w systemau ei hun er mwyn gwella ansawdd gwaith yr asiantaeth gyda phobl sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a
- cynnwys adolygiad o'r broses hon a'i heffaith ar waith yr asiantaeth wrth adolygu gwaith a pherfformiad y staff sy'n cymryd rhan.

## 11. Model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog

**Adolygu fforwm presennol neu sefydlu ymateb newydd - rhestr wirio (rhoddir esboniad pellach isod)**

**Penderfynu ar amcanion**

- Beth mae'r fforwm am ei gyflawni?
- Beth sydd ei eisiau a'i angen ar bobl sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
- Sut bydd y fforwm yn gwybod ei fod yn llwyddo?

**Pa strwythurau sydd eu hangen ar y fforwm?**

- Pwy sydd angen bod yno?
- Pwy yw'r sefydliad arweiniol?
- Pa ddogfennau fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol sydd eu hangen?
- Sut y bwriedir hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth mewn ffordd effeithiol, diogel a chyfreithiol?
- Pwy sy'n gyfrifol am y trefniadau o ddydd i ddydd ac am gydgysylltu'r fforwm hwn?
- Sut y bydd gwaith y fforwm hwn yn cael ei egluro i'r rhai y mae'n ceisio eu helpu?

**Llywodraethu a chyllid**

- Pa broses neu grŵp sydd ar waith i oruchwylio'r fforwm hwn?
- Beth yw cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r partneriaid?
- Sut y byddwch yn dwyn eich gilydd i gyfrif am wneud eich rhan?
- Sut y caiff y fforwm ei ariannu yn y tymor byr a'r tymor hir?

**Cysylltiadau â fforymau a sefydliadau presennol**

- Sut mae'r fforwm hwn yn cysylltu â gwaith a byrddau amlasiantaethol eraill?
- Sut mae'r fforwm hwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau cysylltiedig, fforymau amlasiantaethol presennol eraill a chyfarfodydd amlasiantaethol statudol fel MAPPA?
- A yw'r fforwm wedi ymchwilio i fforymau eraill â nodau/grwpiau cleientiaid tebyg, a'u hadolygu?

**Beth fydd gofyn i bartneriaid ei wneud**

Nodi
Gweithiwr allweddol
Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth
Gweithdrefnau atgyfeirio
Ymchwil a rhannu gwybodaeth
Cynllunio camau gweithredu
Gweithredu ac adrodd

**Ffactorau i'w monitro er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r fforwm**

Atgyfeiriadau
Aelodaeth
Niferoedd
Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Creu fframwaith gwerthuso**

- Sut beth yw llwyddiant ar gyfer yr ymyriad hwn?
- Sut a phryd y gallwch gasglu ymateb defnyddwyr gwasanaeth i'r newid yn eu sefyllfa?
- A yw'r canlyniadau hyn yn cysylltu â'r nodau strategol?
- Ystyriwch gost yr ymyriad hwn yn erbyn y budd i gleientiaid ac asiantaethau

## Adolygu fforwm presennol neu sefydlu ymateb newydd

### Penderfynu ar yr amcanion

- Beth mae'r fforwm am ei gyflawni? Dylai'r partneriaid gytuno ar nod y fforwm ac ystyried risg, diogelwch, lles y cleient a dwyn camdrinwyr i gyfrif. Pan adolygir y fforwm, dylai'r partneriaid benderfynu a yw'n cyflawni ei amcan ac a yw'n parhau i gefnogi nodau strategol y bartneriaeth.
- Beth sydd ei eisiau a'i angen ar unigolion sy'n wynebu risg o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol? Dylai hyn ddeillio o ddadansoddi angen ac o broses o ymgynghori â grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a dylai lywio'r gwaith o gynllunio ac adolygu fforymau.
- Sut y byddwch yn gwybod eich bod yn llwyddo? Dylid penderfynu pa wybodaeth berthnasol i'w chasglu i ddadansoddi canlyniadau ansoddol a meintiol. Dylid cytuno neu ailystyried beth y disgwylir i'r ymyriad ei wneud. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso?

### Pa strwythurau sydd eu hangen ar y fforwm?

- Pwy sydd angen bod yno? Dylid cytuno ar bartneriaid priodol a lefel y swydd sydd ei hangen er mwyn cyflawni nodau'r fforwm. Cofiwch y gall rhai partneriaid, fel yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, fod yn sefydliadau annatganoledig, ond mae eu haelodaeth yn hanfodol. Wrth adolygu, dylid ystyried partneriaid newydd a lefel ymgysylltiad partneriaid presennol[28]
- Dylid nodi sefydliad arweiniol ar gyfer materion gweithredol. Wrth adolygu ac ailwampio fforymau presennol, dylid ystyried a yw'r sefydliad neu'r unigolyn arweiniol yn dal i allu darparu'r arweinyddiaeth sydd ei hangen neu a ddylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei drosglwyddo i rywun arall.
- Pa ddogfennau fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol sydd eu hangen? Dylid creu polisïau a gweithdrefnau ar y cyd - gan nodi unrhyw risgiau a grëir gan wasanaeth a'u dileu. Un o'r themâu cyffredin mewn Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig yw bod angen dull cyson o nodi, asesu a rheoli risg ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol.[29]
- Wrth arfarnu fforwm presennol, dylid adolygu'r dogfennau fframwaith: a ydynt yn ddigonol o hyd? A yw'r partneriaid yn dal i'w defnyddio? Os nad oes gan bartneriaid ddealltwriaeth gyffredin mwyach o elfennau allweddol y fforwm ac mae'r dulliau a ddefnyddir ganddynt yn anghyson, dylai'r grŵp llywodraethu ailystyried y pethau sylfaenol er mwyn ailgreu unffurfiaeth.
- Sut y bwriedir hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth yn effeithiol, yn ddiogel ac yn gyfreithiol? A fyddwch yn gofyn am ganiatâd yr unigolyn i rannu gwybodaeth ac a fydd angen i chi gael y caniatâd hwnnw? Thema gyffredin arall mewn Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig yw bod angen rhannu gwybodaeth am risg rhwng asiantaethau yn well. Caiff cyngor ar rannu gwybodaeth ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o ganllawiau Gofyn a Gweithredu a dylai fforymau ddilyn y canllawiau hyn.

- Pwy sy'n gyfrifol am y trefniadau o ddydd i ddydd ac am gydgysylltu'r fforwm? Pwy fydd yn talu amdano? Fel gyda'r sefydliad arweiniol uchod, dylid adolygu'r cwestiynau hyn yn rheolaidd.
- Sut y bydd yr ymyriad hwn, gwaith y fforwm hwn, yn cael ei egluro i'r rhai y mae'n ceisio eu helpu? Dylai'r partneriaid gytuno ar eglurhad o'r gwaith hwn a rhoi canllaw syml i'r rhai y mae eu hachosion yn cael eu trafod, os yw'n ddiogel gwneud hynny, er mwyn hwyluso eu hymgysylltiad.

### Llywodraethu a chyllid

- Pa broses neu grŵp sydd ar waith i oruchwylio'r fforwm hwn? Dylai strwythur llywodraethu'r fforwm gysylltu ac adrodd i grwpiau gweithredol a strategol y bartneriaeth.
- Beth mae'r partneriaid yn ei ddisgwyl oddi wrth ei gilydd? Beth yw cyfrifoldebau a rhwymedigaethau'r partneriaid? Er enghraifft, dylai partneriaid ddefnyddio'r ffurflenni a'r prosesau y cytunwyd arnynt; dylent ddarparu data a gwybodaeth benodol i'r fforwm; a dylai'r partneriaid gwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o fewn amserlen benodol.
- Dylai asiantaethau partner y fforwm gytuno ar sut y byddant yn dwyn ei gilydd i gyfrif. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod eu hasiantaeth eu hunain yn disgwyl iddynt adrodd yn ôl yn rheolaidd. Fel awgrym ailwampio, dylid ystyried a yw'r trefniadau atebolrwydd hyn yn gweithio ac yn mynd i'r afael ag unrhyw fethiant.
- Dylid casglu gwybodaeth a chanlyniadau a'u bwydo i mewn i'r bartneriaeth strategol fel y gellir ceisio cyllid. Dechreuwyd drwy gysylltu'r canlyniadau a'r manteision â'r cyfrifoldeb am gyllid.

### Cysylltiadau â fforymau a sefydliadau presennol

- Sut mae'r fforwm hwn yn cysylltu â gwaith a byrddau amlasiantaethol eraill? Dylid osgoi dyblygu a chydgysylltu a thynnu sylw'r holl sefydliadau ac awdurdodau perthnasol a chyfrifol at y gwaith.
- Sut mae'r fforwm hwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau cysylltiedig, fforymau amlasiantaethol presennol a chyfarfodydd statudol fel y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)?[30] A oes trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng fforymau, er enghraifft, a oes gweithdrefnau ar waith i drosglwyddo o un MARAC i'r llall? Os yw'r un bobl yn cael eu trafod mewn sawl fforwm gwahanol, a oes angen gwneud hyn? Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod y wybodaeth a rennir yn gyson a bod y cynlluniau gweithredu'n gydnaws ac wedi eu cwblhau â gwybodaeth am y broses arall?
- A yw'r fforwm wedi gwneud ei ymchwil? A yw'r grŵp yn gwybod am ymyriadau eraill yn yr ardal leol, yn y rhanbarth neu yng Nghymru sydd â nodau neu grwpiau cleientiaid tebyg, neu sy'n defnyddio prosesau arloesol a allai weithio i gyflawni'r un nodau?

## Beth a ddisgwylir gan y partneriaid mewn ymyriad amlasiantaethol?

Unwaith y cytunir ar bwrpas, gweithdrefnau ac ymrwymiad i'r bartneriaeth, bydd angen datblygu systemau ar gyfer pob fforwm. Mae gan unrhyw ymyriad amlasiantaethol sawl cam allweddol. Amlinellir y camau hyn isod, gydag enghreifftiau o'r broses MARAC, sef yr ymyriad amlasiantaethol mwyaf sefydledig ac eang ei ddefnydd.

| **Camau ar gyfer ymyriad amlasiantaethol effeithiol** | **Eglurhad** | **Cwestiynau y mae angen i gyfranogwyr a'u sefydliadau eu gofyn:** | **Enghreifftiau o ymarfer ac adnoddau MARAC[31]** |
|---|---|---|---|
| Nodi | Defnyddir proses neu ddull asesu penodol gan bob partner i nodi'r rhai a fydd yn elwa ar yr ymyriad<br>Dylai'r partneriaid anelu at ddefnyddio dull asesu cyffredin | A oes gan y sefydliad ffordd systematig o nodi cleientiaid a fyddai'n elwa ar y fforwm amlasiantaethol?<br>A gaiff y broses hon ei hatgynhyrchu gan bob partner?<br>Sut bydd y sefydliad yn nodi pobl sy'n addas ar gyfer yr ymyriad hwn? | Rhestr Wirio Nodi Risg DASH SafeLives |
| Gweithiwr allweddol | Bydd gan ddioddefwyr weithiwr allweddol sy'n eu cefnogi ac yn cynnig darpariaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol neu a all eu cysylltu â darpariaeth o'r fath a fforymau amlasiantaethol | Pwy fydd yn darparu'r cymorth arbenigol ar gyfer pob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?<br>A oes llwybrau atgyfeirio wedi'u sefydlu gyda gwasanaethau lleol a chenedlaethol er mwyn cynnig cymorth effeithiol yn effeithlon? | IDVA hyfforddedig |
| Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth | Bydd angen cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i gasglu'r | Sut mae'r sefydliad yn ymgysylltu â chleientiaid ac yn eu hannog i gymryd rhan yn y broses hon?<br>A all y sefydliad neu'r | IDVA hyfforddedig<br><br>Gwybodaeth i ddioddefwyr a |

| **Camau ar gyfer ymyriad amlasiantaethol effeithiol** | **Eglurhad** | **Cwestiynau y mae angen i gyfranogwyr a'u sefydliadau eu gofyn:** | **Enghreifftiau o ymarfer ac adnoddau MARAC[31]** |
|---|---|---|---|
| | wybodaeth ddiweddaraf, eu barn ac i roi gwybod iddynt am gyfarfod y fforwm, os yw'n ddiogel gwneud hynny | fforwm fodloni disgwyliadau dioddefwyr: a wrandewir ar eu barn, a ydynt yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac a yw'r broses yn dryloyw (lle y bo'n ddiogel)?<br>Sut rydych yn casglu'r wybodaeth hon?<br>Sut y defnyddir profiad y defnyddiwr i wella'r broses? | atgyfeirir at MARAC<br><br>Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth |
| Gweithdrefnau Atgyfeirio | Llwybr gofal clir gyda chamau a ffurflenni sy'n rhoi ffynonellau cymorth priodol i ddioddefwyr a gwybodaeth berthnasol i'r fforwm | A oes gan y sefydliad lwybr clir i weithwyr rheng flaen ei ddilyn ar ôl i gleientiaid gael eu nodi?<br>A roddir digon o gyhoeddusrwydd i'r broses hon?<br>A oes llwybr safonol ar gyfer atgyfeirio i'r fforymau? | Ffurflen Atgyfeirio MARAC<br>Ffurflen Atgyfeirio o un MARAC i'r llall |
| Ymchwil a rhannu gwybodaeth | Mae partneriaid yn chwilio drwy eu ffeiliau ac yn mynychu cyfarfodydd gyda gwybodaeth briodol a chynhwysfawr | A yw'r sefydliad wedi ymrwymo i'r Protocol Rhannu Gwybodaeth perthnasol?<br>A yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r fforwm yn unol â hyn ac â'r fframwaith deddfwriaethol?<br>Pa wybodaeth sydd gan y sefydliad y gellir ei rhannu er mwyn darparu gwasanaeth gwell i'r cleient | Ffurflen Ymchwil MARAC<br>Ffurflen rhannu gwybodaeth heb ganiatâd<br>Cwestiynau Cyffredinol - datgelu gwybodaeth yn y MARAC |
| Cynllunio camau gweithredu | Mae pawb yn cyfrannu at y cynllun gweithredu ac yn gallu cyflawni'r camau gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu'n | Pa gamau gweithredu y gall y sefydliad eu cynnig?<br>A ydynt yn rhai CAMPUS?<br>A allwch weithio ar y cyd i wella'r ymatebion i'r dioddefwyr?<br>Sut y gallwch ddefnyddio a | Cofnodion a Chynllun Gweithredu MARAC |

| **Camau ar gyfer ymyriad amlasiantaethol effeithiol** | **Eglurhad** | **Cwestiynau y mae angen i gyfranogwyr a'u sefydliadau eu gofyn:** | **Enghreifftiau o ymarfer ac adnoddau MARAC**[31] |
|---|---|---|---|
| | blaenoriaethu risg | chydgysylltu gwaith partneriaid eraill? | |
| Gweithredu ac adrodd | | Sut y caiff y fforwm wybod bod camau gweithredu wedi'u cwblhau?<br>A yw'r broses o roi camau gweithredu amlasiantaethol ar waith yn fusnes craidd i'r sefydliad? | Ffurflen olrhain camau gweithredu i'w defnyddio gan y Cydgysylltydd MARAC<br>Gwybodaeth a data wedi'u casglu a'u dadansoddi i ddangos tystiolaeth o effaith gwaith amlasiantaeth ol. |

## Ffactorau i'w monitro er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r fforwm

Er mwyn i fforwm ddiwallu angen a nodwyd, mae ffactorau penodol yn bwysig, er nad ydynt yn arwydd o lwyddiant ynddynt hwy eu hunain. Dylai sefydliadau perthnasol fonitro pwyntiau ar hyd y llwybr gofal a dangosyddion o ymgysylltiad y bartneriaeth. Dyma'r agweddau sy'n debygol o effeithio ar lwyddiant cyffredinol yr ymyriad os byddant yn dechrau llithro.

Dyma restr fer o ffactorau o'r fath. Efallai y bydd sefydliadau perthnasol yn canfod bod ffactorau allweddol eraill sy'n berthnasol i'w fforwm amlasiantaethol. Pan fydd perfformiad yn erbyn y rhain yn dechrau dirywio, bydd y corff llywodraethu a sefydlwyd i oruchwylio'r fforwm yn awyddus i fynd i'r afael â'r problemau. Pan fydd perfformiad y ffactorau hyn yn parhau i fod yn wael, efallai y bydd y corff llywodraethu am ddychwelyd i'r cwestiynau adolygu uchod, a'r mesurau canlyniadau, er mwyn ailasesu ai'r fforwm sefydledig yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion y grŵp cleientiaid.

| **Ffactor** | **Pam ei fod yn bwysig** | **Beth all fynd o'i le** | **Ateb** |
|---|---|---|---|
| Atgyfeiriadau | Mae angen i bob partner nodi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, | Gall partneriaid dybio y bydd rhywun arall yn atgyfeirio'r achos neu mai cyfrifoldeb rhywun | Monitro atgyfeiriadau gan bob asiantaeth ac |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cam-drin domestig a thrais rhywiol. | arall ydyw.  Gall partneriaid hefyd wneud atgyfeiriadau amhridol am nifer o resymau. | asesu a mynd i'r afael â lefel atgyfeirio isel, gostyngiad neu gynnydd mewn atgyfeiriadau. |
| Aelodaeth (datganoledig ac annatganoledig) a phresenoldeb | Bydd gan gleientiaid amrywiaeth o anghenion lle y mae angen i amrywiaeth o sefydliadau wneud eu rhan. Heb iddynt wneud hynny, ni fydd ansawdd yr ymyriad cyfunol cystal. | Nid yw sefydliadau allweddol yn mynychu.<br>Ni chaiff gwasanaethau gwirfoddol eu gwahodd neu nid ydynt yn mynychu.<br>Nid oes gan y rhai sy'n mynychu yr awdurdod i neilltuo adnoddau. | Monitro presenoldeb a'r asiantaeth arweiniol a/neu'r corff llywodraethu yn mynd i'r afael ag absenoldebau. Trafod pam bod lefelau presenoldeb wedi newid a mynd i'r afael â phroblemau. |
| Niferoedd | Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at y fforwm amlasiantaethol yn gymesur â'r boblogaeth leol a/neu lefel y troseddu, e.e. caethwasiaeth fodern. | Mae nifer y bobl sy'n cael eu hatgyfeirio yn lleihau neu'n cynyddu'n sylweddol.<br>Dim ond un neu ddwy asiantaeth sy'n atgyfeirio. | Trafod y rhesymau pam - ai problem systemig ydyw neu a yw'n gysylltiedig â phroblem neu ddigwyddiad lleol penodol. |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | Fel bod y fforwm amlasiantaethol yn broses sy'n sicrhau cydraddoldeb i holl aelodau'r gymuned. | Nid yw cymunedau anodd eu cyrraedd yn ymgysylltu â'r broses. | Adolygu aelodaeth y fforwm er mwyn gwahodd sefydliadau arbenigol.<br>Creu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn mynd i'r afael â gwendidau. |

## Creu fframwaith gwerthuso

Penderfynir ar ddangosyddion allweddol a chanlyniadau ar gyfer yr ymyriad, caiff data eu casglu a'u dadansoddi'n rheolaidd. Bydd angen i bartneriaid y fforwm gytuno ar ddata sylfaenol a'u casglu fel cam cychwynnol. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy o broses na phenderfyniad, oherwydd efallai y bydd angen creu neu addasu systemau TG a gwaith papur i gasglu data dangosol.

Wrth ddatblygu cyfres o ganlyniadau ar gyfer fforwm amlasiantaethol, meddyliwch am y canlynol:

- sut beth yw llwyddiant ar gyfer yr ymyriad hwn? Sut ydych yn dangos tystiolaeth bod yr ymyriad yn effeithiol, hynny yw, y newidiadau a'r gwelliannau i sefyllfaoedd a bywydau pobl.;
- asesiad defnyddwyr gwasanaeth o'r newid yn eu sefyllfa - sut a phryd y gallwch gasglu'r wybodaeth hon; ;
- a oes cysylltiad rhwng y canlyniadau hyn a'r nodau strategol?; ac
- ystyriwch gost yr ymyriad hwn a'i phwyso yn erbyn y manteision ar gyfer cleientiaid ac asiantaethau[32]

Wrth i ymyriad fforwm amlasiantaethol ddatblygu ac wrth i ddealltwriaeth ac ymarfer yr asiantaethau partner ddod yn fwy soffistigedig, mae'r mesurau canlyniadau yn debygol o ddatblygu hefyd. Dylai'r grŵp llywodraethu adolygu'r gyfres o ganlyniadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfleu gwerth y gwaith yn llawn. Dylid sicrhau bod y model canlyniadau yn hyblyg fel na chaiff gwerth yr ymyriad ei golli drwy lynu'n gaeth wrth y rhagolygon gwreiddiol.

Unwaith y bydd y fforwm amlasiantaethol wedi bod yn rhedeg ers cryn amser, bydd yn ddefnyddiol adolygu enillion y gwaith yn erbyn y gost. A oes modd darparu'r manteision a gofnodir mewn ffordd wahanol ar raddfa lai?

## Atodiad 1

### Fforymau amlasiantaethol yng Nghymru

Isod rhoddir sampl o fforymau amlasiantaethol sy'n weithredol yng Nghymru. Dim ond mewn un ardal y mae rhai fforymau ar gael. Pan fydd partneriaid yn ystyried a ddylid sefydlu grŵp amlasiantaethol newydd er mwyn mynd i'r afael ag angen a nodwyd yn well, dylent adolygu pa fforymau presennol sydd yn eu hardal a gofyn nifer o gwestiynau:

- A yw'r fforymau hyn yn gwasanaethu'r un grŵp cleientiaid - a allai'r grŵp arall hwn ddiwallu'r angen a nodwyd?
- Pa wersi y gellir eu dysgu o brofiad y grwpiau eraill hyn?

I gael gwybodaeth am y gwaith amlasiantaethol sy'n cael ei wneud yn lleol, gall partneriaid gysylltu â'u cydgysylltydd cam-drin domestig lleol.

### Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)

Cyfarfod rhwng darparwyr gwasanaethau lleol yw MARAC lle rhennir gwybodaeth am oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig yr aseswyd eu bod yn wynebu risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol.Gall dioddefwyr gael eu hatgyfeirio gan unrhyw asiantaeth sy'n rhan o gynhadledd MARAC ac, fel arfer, mynychir y cynadleddau hyn gan gynrychiolwyr yr heddlu, iechyd, amddiffyn plant, tai, gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, y gwasanaeth prawf, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'r gwasanaethau arbenigol (IDVA) yn cysylltu â dioddefwyr cyn y cyfarfod, os yw'n ddiogel gwneud hynny, ac mae'r gwasanaethau arbenigol hynny yn cynrychioli eu barn ac yn adrodd yn ôl iddynt hefyd ar y cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod, rhennir gwybodaeth berthnasol a chymesur am y risgiau presennol a wynebir gan ddioddefwr cam-drin domestig. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r cynrychiolwyr i nodi opsiynau ar gyfer gwella diogelwch y dioddefwyr a'u plant. Datblygir cynllun gweithredu amlasiantaethol yn y cyfarfod i leihau'r risg a wynebir gan ddioddefwyr a'u plant ac i fynd i'r afael â'r risg a gyflwynir gan y camdriniwr.

Yn ôl Adroddiad Ymchwil 55 y Swyddfa Gartref (2011), a adroddodd ar effeithiolrwydd MARAC, roedd gan gynadleddau MARAC (ac IDVA) y potensial i wella diogelwch dioddefwyr a lleihau achosion pellach o erledigaeth. Yn ôl *Saving Lives, Saving Money*[33] gan SafeLives, dangosodd dadansoddiad cynnar nad oedd hyd at 60% o ddioddefwyr cam-drin domestig wedi rhoi gwybod am unrhyw achosion pellach o drais ar ôl i gynadledd MARAC gael ei chynnal.

Gall asiantaethau partner gael gafael ar wybodaeth am eu MARAC leol drwy'r cydgysylltydd cam-drin domestig lleol, a leolir fel arfer yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol. Gellir lawrlwytho adnoddau ymarferol o wefan SafeLives: www.safelives.org.uk.

### Galwad Gynadledda Cam-drin Domestig (DACC)

Caiff galwadau cynadledda cam-drin domestig eu cadeirio gan yr heddlu a'u cynnal bob dydd i drafod y digwyddiadau cam-drin domestig y rhoddwyd gwybod amdanynt dros nos. Mae'r galwadau'n cynnwys nifer o asiantaethau proffesiynol perthnasol. Caiff y wybodaeth ei phostio ar wefan ddiogel sydd ar gael i bartneriaid statudol er mwyn rhannu gwybodaeth yn ddiogel, yn hawdd ac yn gyflym.

Yn ystod yr alwad, cytunir ar gynllun rheoli risg i ddiogelu'r dioddefwr a'r teulu ehangach ac i fynd i'r afael ag ymddygiad y camdriniwr. Nod y galwadau yw ymyrryd yn gynt (cyn i'r risg waethygu) a rhannu gwybodaeth am bob achos mewn ffordd effeithlon a chyfrifol ar draws ystod o asiantaethau.

Mae partneriaid yn cael budd o dderbyn gwybodaeth yn gynnar, gan olygu y gallant nodi mwy o ddioddefwyr a'u hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol. Roedd yr ymyriadau a gynigiwyd i ddioddefwyr ar bob lefel risg yn fwy craff; roeddent yn fwy amserol a phriodol i anghenion penodol yr unigolion ac roedd asiantaethau'n fwy ymwybodol o'r camdrinwyr mynych a'r dioddefwyr ac yn gallu cynnig ymyriadau mwy cyfannol.[34] Pan fydd asiantaethau'n ymgysylltu â dioddefwyr sy'n wynebu risg is, mae llai o niwed wedi'i achosi a disgwylir i'r canlyniadau fod yn well i'r dioddefwr a phlant y dioddefwr. Mae camdrinwyr hefyd yn cael eu nodi a'u dwyn i gyfrif[35].

Manteision Galwad Gynadledda Cam-drin Domestig (a gyrchwyd o wefan heddlu Gwent[36]):

- cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn fwy diogel;
- rhannu gwybodaeth yn gyflym ac effeithiol;
- mwy o graffu a goruchwyliaeth;
- cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir;
- atgyfeirio gwell at Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol;
- cynnwys cam-drin domestig ar agenda pob asiantaeth;
- nodi risg, niwed a bygythiadau'n gynnar;
- atgyfnerthu egwyddorion 'gweithio gyda'n gilydd'; a
- dangosodd dadansoddiad cynnar ostyngiad o 28% yn nifer y dioddefwyr mynych.

### Canolfan Diogelu Amlasiantaethol (MASH)

Sefydliad arloesol diweddar yw MASH ac mae'r acronym yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sawl model gwaith gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau MASH yn canolbwyntio ar ddiogelu plant ac yn aml yn darparu'r lleoliad ffisegol ar gyfer tîm o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth prawf, yr awdurdod tân, y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau y caiff niwed sylweddol posibl ei nodi'n gynnar, gan ysgogi ymyriadau er mwyn atal niwed pellach. Mewn rhai mannau, mae'r ganolfan MASH yn gweithredu fel gwasanaeth brysbennu sy'n penderfynu, ar y cyd â'r wybodaeth a gesglir gan bob asiantaeth,

pa asiantaeth fyddai yn y sefyllfa orau i weithio ar yr achos hwnnw. Mewn mannau eraill, mae staff MASH yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i benderfynu ar yr ymyriad mwyaf priodol ar gyfer ymateb i anghenion y plentyn. Mae rhai modelau yn datblygu i gynnwys oedolion y tynnir sylw atynt oherwydd pryderon ynghylch eu diogelwch.

Mae rhith-ganolfannau MASH a chanolfannau MASH â ffocws penodol ar feysydd arbenigol (gan gynnwys cam-drin domestig) hefyd ar gael.

Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o'r modelau rhannu gwybodaeth amlasiantaethol presennol sy'n bodoli a chyhoeddodd ei chanfyddiadau ym mis Gorffennaf 2014[37]. Cynhaliodd tîm y prosiect arolwg o'r holl Awdurdodau Lleol ac ymwelodd â 37 o Awdurdodau Lleol i gynnal cyfweliadau â gweithwyr diogelu lleol mewn meysydd arbenigol gwahanol.

Y swyddogaethau craidd cytûn a restrwyd ar gyfer canolfan amlasiantaethol oedd:

1. Gweithredu fel pwynt mynediad unigol - casglu'r holl hysbysiadau sy'n ymwneud â diogelu mewn un lle.
2. Galluogi ymchwil drylwyr i bob achos er mwyn nodi risg bosibl (ac felly'r cyfle i fynd i'r afael â'r risg honno).
3. Rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, wedi'i chefnogi gan brotocol rhannu gwybodaeth ar y cyd.
4. Brysbennu atgyfeiriadau, y dangosir tystiolaeth o hynny yn y defnydd o raddfeydd risg cytûn.
5. Hwyluso ymyriadau cynnar er mwyn sicrhau nad oes angen rhoi ymyriadau dwysach ar waith yn ddiweddarach.
6. Rheoli achosion drwy ymyriadau cydgysylltiedig.

Nododd yr adroddiad fod canolfannau MASH wedi arwain at godi safon ymarfer diogelu, gan sicrhau yn y pen draw bod plant ac oedolion yn fwy diogel. Yn benodol, ystyriwyd bod canolfannau MASH wedi helpu o ran:

1. Asesiad mwy cywir o risgiau ac anghenion;
2. Rheoli achosion yn fwy trylwyr a chyda mwy o gymhelliant;
3. Gwell dealltwriaeth rhwng gweithwyr proffesiynol o'r ymagwedd gyffredinol tuag at ddiogelu, a;
4. Gwell effeithlonrwydd rhwng proses ac adnoddau.

## Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig

Ers mis Ebrill 2011, o dan Adran 9 (3) o *Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004,* mae'n ofynnol i bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol gynnal adolygiadau o ddynladdiadau domestig mewn perthynas â marwolaethau lle mae marwolaeth person 16 oed neu drosodd wedi digwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod neu yr ymddengys iddi ddigwydd o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu a fu unwaith mewn perthynas bersonol agos ag ef, neu (b) aelod o'r un aelwyd, er mwyn nodi pa wersi y gellid eu dysgu o'r farwolaeth honno. Yr asiantaethau y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan yn yr adolygiadau hyn yw:

- Prif swyddogion heddluoedd Cymru a Lloegr;
- Awdurdodau Lleol;
- Comisiynu GIG Cymru (ers mis Ebrill 2012);
- Grwpiau Comisiynu Clinigol (ers mis Ebrill 2012);
- Darparwyr gwasanaethau prawf
- Byrddau Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae'r adolygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau partner a'r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â'r dioddefwr neu'r camdriniwr adolygu amgylchiadau marwolaeth gyda'i gilydd er mwyn nodi'r gwersi i'w dysgu o ran y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr a chyflwyno newidiadau er mwyn atal marwolaethau oherwydd cam-drin domestig a gwella ymatebion gwasanaeth o fewn asiantaethau a rhyngddynt ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant.

### Siopau un stop

Mae siopau un stop yn dwyn grŵp o weithwyr proffesiynol at ei gilydd er mwyn sicrhau y gall dioddefwr cam-drin domestig gael gafael ar amrywiaeth o asiantaethau mewn un lle, er enghraifft cyngor cyfreithiol, cyswllt yr heddlu a chynghorwyr a gweithwyr arbenigol.

Mewn rhai modelau, mae'r IDVA yn adnodd canolog sy'n rhoi mynediad at wasanaethau eraill y gall fod eu hangen ar berson, gan weithredu fwy neu lai fel 'siop un stop'.

### Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

Lleoliad un stop lle y gall dioddefwyr trais, cam-drin rhywiol ac ymosodiadau rhywiol difrifol, ni waeth beth fo'u rhyw na'u hoedran, dderbyn gofal meddygol a chwnsela, a chael cyfle i helpu'r heddlu gyda'u hymchwiliad, gan gynnwys cael archwiliad fforensig os ydynt yn dewis gwneud hynny. Maent felly'n cyfrannu at waith y GIG a'r Heddlu. Mae gwasanaethau presennol wedi datblygu mewn amrywiaeth o ffyrdd dros amser, gyda gwahanol drefniadau llywodraethu, trefniadau ariannu a dulliau o ddarparu gwasanaethau.

### Tîm Gweithredol Gweithwyr Rhyw (SWOT)

Mae SWOT yn ymgymryd â rôl debyg i gynhadledd MARAC, gyda ffocws ar weithwyr rhyw. Mae'r tîm SWOT yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r Heddlu, Gwasanaethau Iechyd, Prawf, DIP, Tai a Chamddefnyddio Sylweddau a'r trydydd sector arbenigol sy'n rhannu gwybodaeth ac yn cydgysylltu gwaith mewn perthynas â gweithwyr rhyw.

### Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru

Mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth  Cymru yn darparu arweinyddiaeth strategol er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae'r Grŵp hwn yn

cydgysylltu'r cydweithrediad rhwng partneriaid datganoledig ac annatganoledig a Chyrff Anllywodraethol er mwyn cynllunio a chefnogi'r gwaith hwn yng Nghymru.

Caiff y grŵp ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys partneriaid perthnasol fel ACPO Cymru, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Uned Ranbarthol Cudd-wybodaeth Cymru, yr Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau, y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Fforwm Cyrff Anllywodraethol Atal Caethwasiaeth Cymru a Bawso.

### Fforymau Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol

Bellach mae grwpiau rhanbarthol wedi'u sefydlu ledled Cymru, yng Ngwent, De Cymru, Dyfed Powys, Gogledd Cymru a'r Bae Gorllewinol.  Maent yn cynnwys partneriaid perthnasol gan gynnwys Diogelwch Cymunedol, Troseddau Cyfundrefnol Difrifol, yr heddlu, NOMS, Byrddau Cyfiawnder Ieuenctid, awdurdodau lleol a Bawso sy'n cwrdd yn chwarterol i adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun darparu ac i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth[38].

### Fforwm Cyrff Anllywodraethol Atal Caethwasiaeth Cymru

Mae'r fforwm hwn yn cynnwys Barnardos Cymru, Bawso, New Pathways, Cymru Ddiogelach a Chyngor Ffoaduriaid Cymru - asiantaethau rheng flaen sy'n gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth a gwella gwasanaethau a chymorth i bobl a fasnachwyd yng Nghymru.

### Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (UKHTC)

Dylai fod gan bartneriaid broses i'w dilyn, h.y. llwybr gofal, lle mae staff rheng flaen o'r farn y gall cleient y maent yn siarad ag ef/hi fod mewn perygl o gael ei fasnachu (PVoT).  Mae Ymatebwyr Cyntaf penodol ar gael sydd wedi cael eu hyfforddi i ymateb i'r rhai a all fod yn gaethweision cyfoes. Mae Dull Atgyfeirio Cenedlaethol rhagnodedig, gyda ffurflenni a fframweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau, ar gael i nodi a yw person yn gaethwas cyfoes a llwybrau at adnoddau i'w helpu.

### Grŵp Arwain Strategol Cymru ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Mae Grŵp Arwain Strategol Cymru ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol allweddol o sefydliadau statudol ac anstatudol datganoledig ac o sefydliadau eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol. Caiff ei gyd-gadeirio gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru (Iechyd, Addysg a Diogelu Plant) ac, yn fwy eang yng Nghymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Byrddau Iechyd Lleol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Bawso, NSPCC a Chomisiynydd Plant Cymru.

Nod y Grŵp Arwain yw rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael ag FGM yng Nghymru. Mae'r Grŵp mewn sefyllfa unigryw i ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu

cydweithrediad rhwng partneriaid er mwyn cynllunio a chefnogi darpariaeth yng Nghymru, a thrwy hynny wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y dirwedd ddarparu.

### Fforwm FGM Cymru Gyfan

Mae'r grŵp hwn yn cynnig fforwm lle y gall cynrychiolwyr statudol, trydydd sector arbenigol a chymunedol weithio gyda'i gilydd i roi terfyn ar FGM drwy addysg ac ymwybyddiaeth a thrwy wella polisïau ac ymarfer er mwyn diogelu menywod a merched.

Mae ei aelodaeth graidd yn cynnwys cynrychiolwyr o Bawso, Plant yng Nghymru, cynrychiolwyr cymunedol, Addysg, Iechyd (Gofal Cynradd ac Eilaidd), Sefydliad Henna, y Rhwydwaith Cynghori Cymdeithasol Islamaidd, Migrant Help, NSPCC, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru (Diogelu), Gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Cymorth i Fenywod Cymru.

Atodiad 2

Adnoddau i greu ymateb amlasiantaethol gwell

| Ymyriad | Adnodd | |
|---|---|---|
| MARAC | Adnoddau ymarferol ar gyfer cymryd rhan yn y MARAC:<br>○ Rhestr wirio dangosyddion risg DASH SafeLives<br>○ Ffurflenni atgyfeirio MARAC<br>○ Ffurflenni trosglwyddo o un MARAC i'r llall<br>○ Canllawiau asiantaeth-benodol<br>○ Pecynnau cymorth | www.safelives.org.uk |
| Caethwasiaeth Fodern | Canllaw Arfer Gorau ar gyfer gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o gael eu masnachu | www.nationalcrimeagency.gov.uk/about-us/what-we-do/specialist-capabilities/uk-human-trafficking-centre/best-practice-guide |
| | Ffurflenni atgyfeirio cenedlaethol ar gyfer plant ac oedolion a allai gael eu masnachu, p'un a yw'r unigolyn yn Ymatebydd Cyntaf ai peidio. | www.gov.uk/government/publications/human-trafficking-victims-referral-and-assessment-forms |
| Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau | Mae Prosiect Stella yn mynd i'r afael â materion sy'n gorgyffwrdd o ran trais domestig a rhywiol, y defnydd o gyffuriau ac alcohol ac iechyd meddwl. | www.avaproject.org.uk |
| Cyflogwyr | Adnodd i gyfrifo cost cam-drin domestig i fusnes.<br><br>Adnoddau i gyflogwyr | www.caadv.org.uk |
| | Canllawiau i gyflogwyr a chydweithwyr ar gyfer cefnogi dioddefwyr yn y gwaith. | www.safelives.org.uk |
| Gwaith partneriaeth | Canllawiau ar bartneriaethau amlasiantaethol | www.standingtogether.org.uk |
| Datblygu grwpiau defnyddwyr gwasanaeth | Cyllid a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol | www.llyw.cymru/bywhebofn |

## Dogfennau cyfeirio

[i] Awdurdodau Lleol (a ddiffinnir yn adran 24(1) fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru), Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau tân ac achub ac ymddiriedolaethau'r GIG.

[ii] Diffinnir diben y Ddeddf yn adran 1 o'r Ddeddf fel a ganlyn: gwella - (a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; (b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac (c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

[iii] Gweler *Responding to Domestic Abuse: Guidance for General Practices*, cyhoeddiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, prosiect IRIS a SafeLives yn http://www.SafeLives.org.uk/dvservices/CAADA_GP_guidance_manual_FINAL.pdf

[iv] http://www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50458

5 Wills, A, Jacobs N, Montique, B, Croom L, *A guide to effective partnerships*. Standing Together Against Domestic Violence (2011)

[6] Howarth, E, Stimpson, L., Barran, D., Robinson, A., *Safety in Numbers: A Multi-Site Evaluation of Independent Domestic Violence Advisor Services,* Tachwedd 2009. http://safelives.org.uk/policy/Safety_in_Numbers_full_report.pdf Casglwyd gwybodaeth gan Gynghorwyr IDVA mewn saith gwasanaeth mewn lleoliadau trefol, maestrefol a gwledig. Casglwyd gwybodaeth oddi wrth 2567 o ddioddefwyr pan gawsant eu hatgyfeirio ac oddi wrth 1247 pan gaewyd y gwaith achos neu ar ôl pedwar mis, pa un bynnag a ddaeth gyntaf.

[7] Cafodd gwaith dilynol ei gyfyngu i achosion a gaewyd neu achosion bedwar mis ar ôl ymgysylltu a dim ond ar gyfer y rhai a oedd yn parhau i ymgysylltu y'i cofnodwyd.

[8] Howarth, *et al*., tud. 93.

[9] Howarth, *et al*., tud. 10.

[10] *A Place of Greater Safety*, CAADA, 2010. www.safelives.org.uk

[11] NSPCC (2010) ‘The Impact of Abuse and Neglect on the Health and Mental Health of Children and Young People’. Llundain: NSPCC.

[12] Magown, P. “The impact of disability on women’s experience of abuse: an empirical study into disables women’s experiences of, and responses to, domestic abuse.” Ymchwil PhD, Prifysgol Nottingham, 2004.

[13] Astbury, J. (1999) *Gender and Mental Health* (Papur a baratowyd o dan y Prosiect Menter Cydraddoldeb Iechyd Byd-Eang yn seiliedig ar Ganolfan Astudiaethau Poblogaeth a Datblygu Harvard); O’Keane, V. (2000) “Unipolar depression in women” yn Steiner, M. et al. (2000) *Mood Disorders in Women* (Llundain: Martin Dunitz, Ltd.) Humphreys, Cathy (2003) *Mental Health and Domestic Violence: A research overview.* Papur a gyflwynwyd i'r Seminar "Making Research Count" ar Drais Domestig ac Iechyd Meddwl, Coventry,

2003; Humphreys, Cathey a Thiara, Ravi, (2003) "Mental Health and Domestic Violence: "I call it symptoms of abuse", *British Journal of Social Work* 33, t. 209-226; Vidgeon, N. (2003) *Are support services failing victims of domestic violence?* Traethawd Gradd Meistr heb ei gyhoeddi. Prifysgol Polytechnig Anglia, Caergrawnt.

[14] Humphreys, Cathy a Thiara, Ravi (2003) Mental Health and Domestic Violence: 'I call it symptoms of abuse', British Journal of Social Work, 33, 209-226; Golding, J. (1999). Intimate partner violence as a risk factor for mental disorders: a meta-analysis. *Journal of Family Violence*. 14:2, 99-132

[15] Rees, S. et al (2011) 'Lifetime prevalence of gender-based violence in women and the relationship with mental disorders and psychosocial function, ' *Journal of American Medical Association*, 306/5: 513-521.

[16]Adroddiad y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned.*

[17]Walby, Sylvia. *The Cost of Domestic Violence: Update 2009*, t. 9 – 10.

[18] O Fframwaith Cynllunio Gwasanaethau Diogel i Fenywod y System Galedonaidd[18], rhan o'r System Galedonaidd, rhaglen camdrinwyr yn yr Alban

[19] Pence a Sadusky *The Praxis Safety and Accountability Audit Tool Kit*, Praxis International.

[20] Fe'i sefydlwyd ym mis Chwefror 2013 ac mae'n cynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol allweddol o sefydliadau datganoledig ac annatganoledig statudol ac o sefydliadau eraill yn cynnwys y sector gwirfoddol. Ei bwrpas yw darparu arweinyddiaeth strategol, llywio'r broses o wneud penderfyniadau a chydgysylltu gweithgarwch sy'n mynd i'r afael â masnachu mewn pobl.

[21]www.avaproject.org.uk/media/60461/costs%20of%20dv%20by%20local%20authority.pdf

[22] Y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned*, 2013.
[23] www.bywhebofn.co.uk/

[24] www.SafeLives.org.uk
[25] http://www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50458

[26] Adnoddau: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for line managers, Human Resources and Employee Assistance Programmes,* cyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a SafeLives: www.SafeLives.org.uk/documents/DH_DV_Employers_guidance_FINAL.pdf

[27] Er enghraifft: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for line managers Human Resources and Employee Assistance Programmes,* cyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Iechyd a CAADA. Mae cyhoeddiad cysylltiedig ar gyfer staff o'r enw: *Responding to colleagues experiencing domestic abuse: Practical guidance for employees experiencing domestic abuse.* Mae'r ddau yn yr adran Adnoddau yn www.SafeLives.org.uk

[28] Mae enghreifftiau o bartneriaid presennol i'w cael ym mhennod 6 o dan yr is-bennawd 'Pwy yw'r partneriaid?'.

[29] Y Swyddfa Gartref, *Domestic Homicide Reviews: Common Themes Identified as Lessons to be Learned.*

[30] Canllawiau MAPPA 2012: www.justice.gov.uk/downloads/offenders/mappa/mappa-guidance-2012-part1.pdf.

[31] www.SafeLives.org.uk

[32] Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y Seren Ganlyniadau (www.outcomesstar.org.uk) a mesur MARAC o'r lleihad yn nifer y digwyddiadau mynych y caiff pob asiantaeth wybod amdanynt.

[33] www.SafeLives.org.uk.

[34] Robinson (2012) Task & Finish Group report, t. 46 a 47

[35] Thomas ac Allen (2012) Evaluation of the Gwent Domestic Abuse Conference Call.

[36] https://www.gwent.police.uk/advice-and-guidance/victims-of-crime/domestic-abuse/the-role-of-policing/daily-conference-calls/

[37] Prosiect Gwaith Amlasiantaethol a Rhannu Gwybodaeth - https://www.gov.uk/government/news/working-together-to-safeguard-children-multi-agency-safeguarding-hubs

[38]Adroddiad Blynyddol Cydgysylltydd Atal Masnachu Pobl Llywodraeth Cymru, 2013

| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw:<br><br>Sefydliad (os yw'n berthnasol):<br><br>E-bost / rhif ffôn:<br><br>Eich cyfeiriad: |
|---|---|

## Cwestiynau cyffredinol

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. A yw'r canllawiau drafft yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i helpu awdurdodau i sefydlu trefniadau cydweithredu er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| **Os nad ydynt, beth arall y mae angen ei gynnwys?** | | | | | | | |
| **2. A oes unrhyw rwystrau rhag sefydlu a gweithredu trefniadau cydweithredu gweithredol yn effeithiol? Beth ydynt a sut y gellid mynd i'r afael â hwy?** | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **3. Ydych chi'n cytuno â'r gofynion a gynigir mewn perthynas â threfniadau cydweithredu strategol?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| **Os nad ydych, pa ofynion fyddai'n fwy priodol a pham?** | | | | | | | |
| **4. Ydych chi'n cytuno â'r gofynion a gynigir mewn perthynas â threfniadau cydweithredu gweithredol?** | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

**Os nad ydych, pa ofynion fyddai'n fwy priodol a pham?**

**5. Ydych chi'n cytuno â'r gofynion a gynigir mewn perthynas â fforymau amlasiantaethol ar gyfer ymateb i achosion unigol?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

**Os nad ydych, pa ofynion fyddai'n fwy priodol a pham?**

**6. Ydych chi'n cytuno â'r gofynion a gynigir mewn perthynas â rôl sefydliadau unigol yn y broses gydweithredu?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

**Os nad ydych, pa ofynion fyddai'n fwy priodol a pham?**

**7. Ydych chi'n cytuno â'r model datblygu prosiectau ar gyfer fforymau amlasiantaethol cleient-ganolog?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

**Os nad ydych, pa newidiadau rydych yn eu hawgrymu?**

| |
|---|
| **8. Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn perthynas â'r canllawiau hyn? A oes gennych bryderon y gallai unrhyw ran o’r canllawiau gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg?** |
| **9. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:** |

| | |
|---|---|
| Mae'n debyg y caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, ticiwch yma: | ☐ |